



ASiantaeth
SAFONAU
BWYD

Asiantaeth Safonau Bwyd

Adroddiad Blynyddol 2006/07

Cyflwynwyd gerbron y Senedd o dan Adran 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999
Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu 27 Mehefin 2007

SE/2007/84
NIA 12/06-07



Cynnwys

Rhagair
2

Pennod

- 1 Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA)
5
- 2 Diogelwch bwyd
9
- 3 Bwyta er iechyd
15
- 4 Dewis
21
- 5 Ein ffordd o weithio
27

Atodiad

- 1 Ynglŷn â ni
35
- 2 Ein Bwrdd a'r Prif Weithredwr
42
- 3 Sut yr ydym wedi'n trefnu
44
- 4 Dadansoddiad o gynlluniau gwariant adrannol
46
- 5 Cynnydd yn erbyn ein Cytundeb Darparu Gwasanaeth
50
- 6 Cwynion a gyflwynwyd i'r FSA
51
- 7 Gwaith gorfodi'r Gwasanaeth Hylendid Cig
53
- 8 Rhestr termau
57

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) ar gyfer 2006/07 gerbron Senedd San Steffan, Gweithrediaeth yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r hyn rydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Mae ein seithfed Arolwg o Agweddau Defnyddwyr at Fwyd ledled y DU yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y defnyddwyr sy'n credu bod yr FSA yn sefydliad y gallant ymddiried ynddo. Mae cyfradd ymddiriedaeth yr Asiantaeth yn 61%, sef cynnydd o 17 pwynt dros bum mlynedd.

Dengys yr adroddiad hwn bod yr Asiantaeth yn parhau i ymateb mewn modd amserol, pendant a chymesur er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Wrth ddatblygu mentrau sy'n gwella diogelwch bwyd ac yn sicrhau bod bwyta'n fwy iach yn haws i bawb, rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o'r angen i gydbwysu diogelwch y cyhoedd a buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, gyda'r amgylchiadau sy'n galluogi busnesau i arloesi, cystadlu a ffynnu.

Diogelwch bwyd

Efallai mai'r dystiolaeth gliraf bod diogelwch bwyd wedi gwella yw'r gostyngiad o 19.2 y cant yn yr achosion o salwch a gludir gan fwyd rhwng 2001 a 2006 - sy'n agos at y targed uchelgeisiol o 20 y cant y gwnaethom ei bennu i'n hunain yn ein Cynllun Strategol cyntaf. Mae partneriaethau effeithiol yn hanfodol ar gyfer gwneud cynnydd o'r fath, a dylid talu teyrnged arbennig i'r diwydiant bwyd am ei ymdrechion ar draws y gadwyn fwyd.

Mae'r gostyngiad yn cyfateb i tua 1.5 miliwn yn llai o bobl yn dioddef o salwch a gludir gan fwyd, 10,000 yn llai o bobl yn gorfod mynd i'r ysbyty o ganlyniad i rywbeth y gwnaethant ei fwyta, ac arbediad cost a amcangyfrifir o fwy na £750 miliwn.

Mae amrywiaeth o fentrau hylendid bwyd wedi ategu'r cynnydd hwn, yn cynnwys *Bwyd mwy diogel, gwell busnes*. Mae'r pecyn rheoli diogelwch bwyd arloesol hwn sy'n seiliedig ar risg, a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer busnesau arlwyio bach, yn mynd o nerth i nerth, a dosbarthwyd tua 230,000 o becynnau ers dechrau'r prosiect ym mis Medi 2005. Lansiwyd pecynnau ar gyfer manwerthwyr ym mis Mai 2006 a lansiwyd dau becyn newydd yn cwmpasu bwydydd Tsieinaidd, Indiaidd, Pacistani, Bangladeshi a bwyd o Sri Lanca ym mis Mawrth 2007. Bydd dull hyfforddi rhyngweithiol ar gael ar DVD yn ystod haf 2007. Bydd hwn yn cynorthwyo rheolwyr a'u staff mewn busnesau arlwyio a manwerthu - yn enwedig lle ceir problemau o ran iaith neu lythrennedd.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, gall busnesau bwyd llai hefyd edrych ymlaen at gael canllawiau defnyddiol gan yr Asiantaeth ar atal digwyddiadau bwyd ac ymateb iddynt. O dan arweiniad ein Tasglu Digwyddiadau Bwyd, mae rhanddeiliaid wedi gweithio mewn partneriaeth â ni i ddysgu o ddigwyddiadau yn y gorffennol, fel halogi powdwr chilli gyda'r llifyn diwydiannol, Sudan I, yn 2005.

Bwyta er iechyd

Er mwyn ei gwneud yn haws i bobl fwyta'n iach mae'n allweddol ein bod yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael y cyfle i wneud dewisiadau hyddysg ynghylch yr hyn maent yn ei fwyta. Felly, mae angen i bobl gael gwybodaeth glir ac ystyrlon am fwyd, ac mae angen sicrhau bod opsiynau iachach ar gael iddynt ddewis ohonynt. Gwnaed cynnydd yn y ddau faes hyn dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn benodol, mae'r diwydiant bwyd wedi parhau i leihau lefelau'r halen yn nifer o'i fwydydd wedi'u prosesu, gyda chymorth y targedau gwirfoddol ar gyfer 85 o categorïau bwyd a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2006. Hyd yma mae saith deg o fusnesau neu gymdeithasau masnach wedi ymrwymo i leihau halen ac mae'r rhan fwyaf yn gweithio tuag at gyrraedd y targedau hyn.

Er mwyn ategu ymdrechion y diwydiant bwyd, lansiwyd cam newydd o'n hymgyrch halen ym mis Mawrth 2007 i adeiladu ar yr ymwybyddiaeth gynyddol ymysg defnyddwyr o'r buddiannau iechyd a ddaw o leihau'r lefelau o halen a fwyteir tuag at y targed a argymhellir o ddim mwy na 6g y diwrnod. Mae'r ymgyrch hysbysebu ddiweddaraf yn helpu pobl i ddewis bwydydd â llai o halen ynddynt, drwy eu hannog i edrych ar labeli i weld pa gynnyrch sy'n 'llawn ohono', a dewis yr opsiwn â llai o halen pryd bynnag y bo'n bosibl.

Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y Llywodraeth, y diwydiant bwyd, y sector gwirfoddol a'r sector anllywodraethol i adeiladu ar y gostyngiad bach ond pwysig yn lefelau'r halen a fwyteir a gyflawnwyd hyd yma - o 9.5g i 9.0g y diwrnod rhwng 2000/2001 a mis Mawrth 2007.

Drwy gynnal ein hymgyrch halen ar yr un pryd â'r broses o roi cyhoeddusrwydd i system nodi lliw goleuadau traffig ar gyfer maetholion allweddol ar flaen pecynnau bwyd, llwyddwyd i helpu pobl hyd yn oed yn fwy gyda'u dewisiadau bwyd. Gall defnyddwyr bellach weld faint o halen, yn ogystal â braster, braster dirlawn a siwgr sydd mewn miloedd o fwydydd wedi'u prosesu gan fod cymaint o fanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr bwyd wedi dechrau defnyddio'r cynllun nodi lliw a argymhellir gennym neu system Swm Dyddiol a Argymhellir (GDA) ar gyfer labelu maeth.

Mae'r ffaith bod Ofcom wedi ymgorffori ein model proffilio maetholion yn ei fesurau newydd gan gyfyngu ar yr hysbysebion am gynnyrch bwyd a diod â lefelau uchel o fraster, braster dirlawn, siwgr a halen a anelir at blant hefyd yn rhan o'r broses o wella gwybodaeth. Cyhoeddodd Ofcom ei gyfyngiadau newydd ym mis Chwefror 2007, a byddwn yn awyddus i gyfrannu at y gwaith o werthuso eu hefffaith.

Rheoleiddio gwell, gwell diogelwch i'r cyhoedd

Tra bod yr Asiantaeth bob amser yn ceisio gweithredu'n unol ag egwyddorion rheoleiddio gwell - ein tasg gyntaf ym mis Ebrill 2000 oedd adolygu pa mor gymesur yw'r rheoliadau BSE - dyma'r flwyddyn gyntaf i ni fesur buddiannau ein gweithgareddau rheoleiddio gwell mewn modd cynhwysfawr. Mae ein Cynllun Symleiddio ar gyfer 2006/07 yn nodi arbedion amcangyfrifedig o dros £195 miliwn mewn costau polisi a chostau gweinyddol i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, a gyflawnwyd heb leihau'r flaenoriaeth a roddwn i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Credwn mai defnyddwyr sy'n gweld buddiannau ein gwaith symleiddio yn y pen draw, gan fod symleiddio yn arwain at well cydymffurfiaeth a gwell diogelwch i'r cyhoedd o ganlyniad i hynny.

Mae ein hyder yn y broses hon yn deillio o'r ffaith bod y dystiolaeth a'r cyngor gwyddonol gorau yn llywio ein gweithgareddau. P'un a ydym yn trafod rheoliadau bwyd gyda phartneriaid yn yr UE, yn datblygu dull mwy ymatebol a hyblyg o orfodi cyfraith fwyd ynghyd â'n cydweithwyr mewn awdurdodau lleol, neu'n ystyried pa mor gynaliadwy yw ein polisiau, rydym wedi sefydlu dulliau cadarn o sicrhau bod ein dyfarniadau yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n gadarn, yn dryloyw ac yn annibynnol.

Y dyfodol

Mae tri thueddiad annibynnol ond sy'n gysylltiedig â'i gilydd yn dylanwadu ar y gofynion a roddir ar yr Asiantaeth yn y dyfodol: ymwybyddiaeth gynyddol o gyfraniad deiet gwael at afiechyd a salwch; effeithiau cadwyn fwyd fyd-eang sy'n gynyddol gymhleth ar ddiogelwch bwyd; ac effeithiau peidio â rheoli bwyd mewn modd mwy cynaliadwy ar y blaned. Er bod y dasg yn anferthol, rydym yn falch bod gennym adnodd sy'n ategu gweledigaeth yr Asiantaeth ar gyfer bwyd mwy diogel a sicrhau bod pawb yn bwyta'n iachach: sef ein staff sy'n llawn cymhelliad ac egni. Mae eu hymrwymiad a'u gwybodaeth yn rhoi'r momentwm sydd ei angen arnom i greu cynghreiriau a chyflawni ein hamcanion strategol.

Rydym hefyd yn ddiolchgar am gymorth parhaus y sefydliadau niferus sy'n gweithio mewn partneriaeth â ni ac sy'n dangos diddordeb gweithredol mewn materion sy'n ymwneud â bwyd.

Y Fonesig Deirdre Hutton CBE
Cadeirydd

John Harwood
Prif Weithredwr



**Pennod 1 Yr Asiantaeth Safonau
Bwyd (FSA)**

Pennod 1 Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA)

- 1.1** Mae'r FSA, sef adran anweinidogol o'r Llywodraeth, yn gorff i'r DU gyfan sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion ac sydd wedi'i rheoli gan Fwrdd a benodwyd i weithredu er budd y cyhoedd. Rydym yn atebol i'r Senedd yn San Steffan ac i'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon drwy'r gweinidogion iechyd perthnasol, ond mae annibyniaeth yn allweddol i'n llwyddiant o ran cynnal hyder y cyhoedd yn y modd y gwneir penderfyniadau ynghylch diogelwch bwyd. Sefydlwyd yr FSA i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn diffinio ein prif ddiben fel a ganlyn: **'diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a allai godi mewn perthynas â bwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.'**
- 1.2** Fel un o adrannau'r Llywodraeth, corff rheoleiddio annibynnol a chorff diogelu defnyddwyr, rydym yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Rydym yn gweithio gyda:
- **busnesau** o'r pridd i'r plât er mwyn eu helpu i gadw defnyddwyr yn ddiogel
 - **awdurdodau lleol** ac asiantaethau gorfodi cyfraith bwyd eraill er mwyn eu helpu i gymryd camau cymesur, amserol a phenderfynol
 - **defnyddwyr** i roi gwybodaeth ddibynadwy a chyfredol er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau iach am fwyd
- 1.3** Mae gennym gylch gorchwyl eang, yn ymwneud â diogelwch bwyd ar draws y gadwyn fwyd gyfan – 'o'r pridd i'r plât'. Ein tasg ni yw diogelu defnyddwyr rhag risgiau iechyd ac fel arall i ddiogelu eu buddiannau ym mhob mater sy'n gysylltiedig â bwyd a diod. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn yn atodiad 1. Ceir gwybodaeth fanylach a gaiff ei diweddarau'n gyson ar ein gwefan yn www.food.gov.uk¹ Mae rhestr gyswllt fanwl fesul pwnc ar gael yn: www.food.gov.uk/aboutus/contactus

Ein gweledigaeth

- 1.4** Ein gweledigaeth yw:
- **bwyd diogel a bwyta'n iach i bawb**
- 1.5** Mae popeth a wnawn yn adlewyrchu'r weledigaeth hon, a'n gwerthoedd craidd:
- **rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf**
 - **bod yn agored ac yn annibynnol**
 - **yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth**
- 1.6** Mae rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf yn golygu:
- sicrhau mai diogelwch bwyd yw ein prif flaenoriaeth
 - sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth a chyfleoedd i wneud dewisiadau am fwyd
 - galluogi pobl i ddeall risgiau a buddiannau

¹ Mae gennym ddwy wefan ychwanegol: mae www.eatwell.gov.uk yn rhoi cyngor i ddefnyddwyr ar wneud dewisiadau iachach; ac mae www.salt.gov.uk yn ategu ein hymgyrch halen sy'n anelu at achub bywydau drwy leihau'r halen y mae pobl yn ei fwyta.

1.7 Mae bod yn agored² yn golygu ein bod:

- yn **atebol i'r cyhoedd**, sy'n ariannu'r FSA yn anuniongyrchol ac y mae ganddynt fudd allweddol mewn gweld yr FSA yn gweithredu'n effeithiol - felly mae angen i'r sefydliad sicrhau ei fod yn agored i **brosesau craffu**, gan alluogi rhanddeiliaid i gwestiynu a herio unrhyw agwedd ar ein polisi a'n camau gwneud penderfyniadau rheoliadol
- yn **gorfod bod yn ddiuedd** yn y modd rydym yn gweithredu i ddiogelu defnyddwyr a'u buddiannau, gan wneud penderfyniad cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gweithredu yn unol â'n statud sefydlu - mae bod yn agored yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei natur ddiuedd ac i ddiogelu ei hun rhag pwysau gormodol; a
- fwyaf effeithiol pan fyddwn yn **gweithredu drwy gydsyniad** – mae bod yn agored yn caniatáu rhanddeiliaid i ddod i gasgliadau rhesymol ynglŷn â'r graddau y mae'r FSA yn dangos nodweddion teg, cymwys ac effeithlon sy'n ategu hyder y cyhoedd a ffydd rhanddeiliaid yn unrhyw reoleiddiwr a'i benderfyniadau

1.8 Mae bod yn annibynnol yn golygu:

- bod yn ddiuedd ac yn onest
- seilio ein penderfyniadau ar y cyngor arbenigol gorau
- ennill parch rhyngwladol am safonau diogelwch bwyd a maeth yn y DU
- cyhoeddi ein cyngor

1.9 Mae bod yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth yn golygu:

- defnyddio'r wyddoniaeth orau sydd ar gael a thystiolaeth arall i ddatblygu polisiau
- cyfleu'r hyn sy'n hysbys a'r hyn nad yw'n hysbys am ddiogelwch bwyd ac iechyd dietegol yn glir
- ariannu gwaith i ymdrin ag ansicrwydd yn y wyddoniaeth ac asesu effeithiolrwydd ein polisiau

Ein hegwyddorion ar waith

1.10 Fel sefydliad, cyflogwr ac fel unigolion rydym yn gwerthfawrogi:

- gonestrwydd, gwrthrychedd ac uniondeb
- herio er gwelliant parhaus, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
- amrywiaeth, cydweithredu a pharch

Ein Cynllun Strategol hyd at 2010

1.11 Ym mis Mawrth 2007 cyflwynwyd ein hadolygiad o'r Cynllun Strategol, a roddodd gyfle i ni fesur a nodi cynnydd yn erbyn ein targedau strategol. Sicrhaodd yr adolygiad hefyd fod y Cynllun yn ddogfen ddeinamig sy'n esblygu ac sy'n addas at y diben. Nid yw'r Cynllun diwygiedig yn arwydd o newid mewn cyfeiriad. Erys prif amcanion diogelwch bwyd, bwyta er iechyd a dewis yr un fath.

² Ym mis Chwefror 2007, trafododd y Bwrdd gyfres o gamau i'w cymryd er mwyn sicrhau bod yr FSA – y Bwrdd a'r Prif Weithredwr – yn parhau i arddel ei gwerth craidd o fod yn agored ac yn hygyrch, o wneud hynny mewn modd effeithiol ac effeithlon, a'i fod yn sefydliad sy'n rhoi esiampl i eraill ei dilyn.

- 1.12** Mae'r 'Cynllun Strategol hyd at 2010' yn nodi'r hyn yr ydym am ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf. Caiff ei weithredu drwy Gynllun Corfforaethol newyd a gyhoeddir yn flynyddol sy'n dangos y nodau tymor byr a'r cerrig milltir a ddefnyddir i fesur a nodi ein cynnydd.
- 1.13** Prif amcanion ein Cynllun Strategol hyd at 2010 yw:
- Diogelwch bwyd:**
- parhau i leihau'r achosion o salwch a gludir gan fwyd
 - cyflwyno rheolaethau BSE a TSE cymesur yn seiliedig ar y wybodaeth wyddonol ddiweddaraf
 - meithrin a chynnal ymddiriedaeth rhanddeiliaid yn y ffordd yr ydym yn trin materion diogelwch bwyd
- Bwyta er iechyd:**
- galluogi defnyddwyr i ddewis deiet iachach a helpu i leihau clefydau sy'n gysylltiedig â deiet
- Dewis:**
- galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau hyddysg
 - diogelu defnyddwyr rhag twyll bwyd ac arferion anghyfreithlon
- 1.14** Ein nod hefyd yw sicrhau mai ni yw'r darparwr yr ymddiriedir fwyaf ynddo yn y DU o ran cyngor annibynnol ar ddiogelwch bwyd a safonau bwyd, ac ennyn yr ymddiriedaeth honno drwy'r hyn a wnawn a'r ffordd y gwnawn hynny.
- 1.15** Cyhoeddir ein Cynllun Strategol yn llawn ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/strategicplanto2010e.pdf (Saesneg) a www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/strategicplanto2010welsh.pdf (Cymraeg). Gellir archebu copïau gan Gyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd drwy ffonio 0845 606 0667, drwy anfon ffacs ar 020 8867 3225, neu drwy anfon e-bost i foodstandards@ecgroup.uk.com



Pennod 2 Diogelwch bwyd

Cipolwg ar y flwyddyn a aeth heibio

Yn 2006/07 cyflawnwyd y canlynol:

- gostyngiad o 19.2% mewn salwch a gludir gan fwyd o gymharu â'r ffigur sylfaenol ar gyfer 2000
- amcangyfrif bod achosion o glefyau a gludir gan fwyd wedi gostwng 1.5 miliwn gyda 10,000 yn llai o achosion o bobl yn gorfod mynd i'r ysbyty, ac sy'n arbed mwy na £750 miliwn mewn costau i gyd dros y cyfnod hwn
- ehangu ein hamrywiaeth o ddeunyddiau canllaw ar gyfer busnesau
- cynorthwyo 28,500 o fusnesau bwyd bach i gydymffurfio'n well â rheoliadau diogelwch bwyd
- cyhoeddi arian sylweddol ychwanegol ar gyfer diogelwch bwyd
- ehangu'r cynllun gwobrwyo Bwyta'n Ddiogel
- paratoi ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar ddigwyddiadau bwyd
- sefydlu'r Tasglu Digwyddiadau Bwyd a'r Tasglu Twyll Bwyd
- cyhoeddi system ddosbarthu hirdymor (LTC) ar gyfer ardaloedd cynaeafu cregynbysgod yng Nghymru a Lloegr


2.1 Diogelwch bwyd yw ein prif flaenoriaeth o hyd. Ein nod yw gosod safonau newydd ar gyfer diogelu buddiannau defnyddwyr ac iechyd y cyhoedd, a sicrhau y cânt eu cynnal yn llym. Mae'r bennod hon yn amlygu rhai o'r materion yr ymdriniwyd â hwy yn ystod 2006/07. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan www.food.gov.uk

Salwch a gludir gan fwyd

2.2 Yn ein Cynllun Strategol cyntaf, gosodwyd targed uchelgeisiol i leihau'r achosion o salwch a gludir gan fwyd 20% rhwng 2000 a 2006. Buom yn gweithio gyda'n partneriaid drwy'r gadwyn fwyd i gyflawni'r targed hwn. Buom yn gweithio gyda diwydiant, mewn awdurdodau lleol, a thrwy gyfrwng ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd. Mae ein gwaith gydag awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS), a'r Adran Amaeth a Materion Gwledig (DARD) yng Ngogledd Iwerddon ar orfodi cyfraith bwyd yn gwneud cyfraniad allweddol i'n strategaeth i leihau'r achosion o salwch a gludir gan fwyd.

2.3 Y nifer dros dro o achosion a gofnodir mewn labordai o'r pathogenau a gludir gan fwyd a gawsant eu monitro gan yr FSA yn 2005 yw 53,052, sef gostyngiad o 19.2% o gymharu â'r ffigur sylfaenol ar gyfer 2000. Dros yr un cyfnod amcangyfrifir bod achosion o glefydau a gludir gan fwyd wedi gostwng 1.5 miliwn gyda 10,000 yn llai o achosion o bobl yn mynd i'r ysbyty sy'n golygu 38,000 yn llai o ddiwrnodau mewn gwelyau mewn ysbytai. Mae'r gost o ganlyniad a arbedir mwy na £750 miliwn dros y cyfnod hwn sy'n welliant sylweddol yn iechyd y cyhoedd a buddiannau economaidd sylweddol.

Bwyd mwy diogel, gwell busnes



- 2.4** Mae Bwyd mwy diogel, gwell busnes (SFBB), y system rheoli diogelwch bwyd arloesol a ddatblygwyd ar gyfer busnesau bach yn parhau i fod yn llwyddiant mawr. Dosbarthwyd tua 230,000 o becynnau i arlwywyr ers lansi'r system ym mis Medi 2005. Yn 2006, adolygwyd y pecyn, a chyhoeddwyd fersiwn wedi'i adolygu ym mis Hydref 2006. Lansiwyd SFBB i fanwerthwyr ym mis Mai 2006, yn seiliedig ar y model arlwyio sefydledig. Dosbarthwyd tua 40,000 o'r pecynnau i fanwerthwyr hyd yma. Lansiwyd dau becyn newydd ym mis Mawrth 2007, SFBB ar gyfer bwyd Tsieineaidd, ac SFBB ar gyfer bwyd Indiaidd, Pacistani, Bangladeshi, a bwyd o Sri Lanca.
- 2.5** Aeth gwaith rhagddo yn ystod y flwyddyn i baratoi offeryn hyfforddi rhyngweithiol ar DVD i ategu'r SFBB. Bydd ar gael yn ystod haf 2007. Cynlluniwyd y DVD i gynorthwyo rheolwyr a'u staff mewn busnesau arlwyio a manwerthu, yn enwedig lle y gallai fod angen help gyda materion yn ymwneud ag iaith neu lythrennedd. Bydd y DVD ar gael mewn nifer o ieithoedd a ddefnyddir yn gyffredinol mewn busnesau bwyd.
- 2.6** Ym mis Mai 2006 cymerwyd rhan mewn fforwm peilot ar-lein llwyddiannus gyda Chymdeithas Hansard a'r Adran Materion Cyfansoddiadol. Galluogodd hyn ddefnyddwyr y pecyn arlwyio i rannu eu safbwyntiau a'u profiadau. O ganlyniad mae'r canfyddiadau o'r prosiect wedi'u bwydo i'r gwaith o ddatblygu'r SFBB.

Hwb ariannol ychwanegol ar gyfer diogelwch bwyd

- 2.7** Lansiwyd ein cynllun grant £10 miliwn yn Lloegr yn 2005 a dyfarnwyd gwerth £5.5 o grantiau ar y cam cyntaf. Mae'r cynllun yn rhoi pecyn cymorth i arlwywyr a manwerthwyr bwyd i weithredu'r SFBB ac mae'n gwneud cynnydd da. Dyfarnwyd ail gyfres o grantiau gwerth dros £4 miliwn ym mis Medi 2006. Rhoddwyd yr arian i 34 o brosiectau a chafodd 109 o awdurdodau lleol eraill arian. Rhoddwyd blaenoriaeth i geisiadau arloesol a sicrhodd arian atodol o ffynonellau eraill, ac i'r ymgeiswyr hynny nad oeddent wedi cael llawer o arian yn flaenorol, os o gwbl.
- 2.8** Erbyn diwedd mis Mawrth 2007 byddwn wedi cynorthwyo 28,500 o fusnesau bwyd bach i gydymffurfio'n well â rheoliadau diogelwch bwyd, a chytunwyd ar brosiectau i roi cymorth i godi'r cyfanswm hwn i dros 50,000 erbyn mis Mawrth 2008. Dyma'r cynllun mwyaf rydym wedi'i redeg i helpu busnesau. Ceir mwy o wybodaeth am y cynllun grantiau ac astudiaethau achos o'r brosiectau llwyddiannus yn ein cylchlythyrau SFBB yn www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/fsanews57.pdf a www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/sfbb02.pdf
- 2.9** Yn yr Alban sicrhawyd £4 mliwn o arian ychwanegol dros ddwy flynedd i gynorthwyo busnesau arlwyio i weithredu systemau sy'n seiliedig ar HACCP³ Mae pob un o'r 32 o awdurdodau yn yr Alban wedi cymryd rhan mewn prosiectau a ariennir i gynorthwyo busnesau lleol. Canfu gwerthusiad dros dro yn ystod 2005 fod arlwywyr o'r farn bod y prosiect yn llwyddiant ar y pryd. Y llynedd, sicrhawyd £250,000 ychwanegol i awdurdodau ar gyfer rhoi cymorth i fusnesau ychwanegol gan ganolbwyntio ar y sector manwerthu a'r sector gwirfoddol. Daeth y gwaith a ariannwyd gan yr FSA yr Alban i ben ar 31 Mawrth 2007. Mae'r gwaith o gasglu data yn mynd rhagddo o hyd ond ar hyn o bryd dengys fod o leiaf 13,000 o fusnesau arlwyio wedi cael hyfforddiant a/neu gymorth mentora. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnal gwerthusiad o'r prosiect terfynol yn ystod 2007/08.

³ Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd wedi'i dogfennu a gaiff ei hystyried yn gyffredinol fel y ffordd fwyaf effeithiol o reoli peryglon yn y broses trin a chynhyrchu bwyd. Ymagwedd strwythuredig ydyw yn seiliedig ar saith egwyddor y gellir eu cymhwyso'n hyblyg mewn busnesau bwyd o bob maint er mwyn sicrhau bod rheolaethau cymesur yn seiliedig ar risgiau ar waith ac er mwyn sicrhau y caiff bwyd diogel ei gynhyrchu.

CookSafe a chanllawiau eraill

- 2.10** Datblygwyd y canllaw Cook**Safe** gan weithgor o Bwyllgor Cyswllt Gorfodi Bwyd yr Alban gyda chynrychiolaeth o'r adran gorfodi a'r diwydiant. Cynhyrchwyd y canllaw hwn i ddechrau ym mis Medi 2004 ac fe'i mabwysiadwyd gan awdurdodau lleol fel y prif offeryn ar gyfer rhoi cymorth a chynghor gan awdurdodau lleol i fusnesau yn yr Alban. Ers hynny fe'i cynhyrchwyd mewn Tsieinëeg, Wrddw, Pwnjabeg a Bengali. Ychwanegwyd y canllaw cysylltiedig, Retail**Safe** at y gyfres y llynedd ar gyfer manwerthwyr sy'n ymdrin â bwydydd heb eu lapio sy'n peri llawer o risg. Paratowyd y fersiwn e-ddysgu rhyngweithiol 'eCook**Safe**' hefyd. Roedd hwn ar gael ar fformat CD yn wreiddiol ond ers 2006 gellir ei lwytho i lawr o'r Rhyngrwyd. Ers mis Chwefror 2007 mae pob fersiwn o Cook**Safe** a Retail**Safe** ar gael i'w prynu gan y Llyfrfa.



Eat Safe

- 2.11** Rydym yn parhau i gefnogi a hyrwyddo'r cynllun dyfarnu 'Eat **Safe**' yng Ngogledd Iwerddon. Bellach mae pob un o'r 26 o gynghorau yng Ngogledd Iwerddon yn cefnogi'r cynllun, a dyfarnwyd y nod ym mhob ardal cyngor. Dyfarnwyd y nod i'r 200fed busnes yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mehefin 2006. Ers hynny rydym wedi ehangu cwmplas y dyfarniad i gynnwys amrywiaeth ehangach o sefydliadau arlwyio ac edrychwn ymlaen at weld y nifer hwn yn cynyddu. Gwnaed diwygiadau mawr i wefan Eat Safe i gynnwys y categorïau busnesau bwyd a'r nifer cynyddol o wobrwyr.
- 2.12** Gweinyddir y cynllun Eat Safe gan Swyddogion Iechyd Amgylcheddol Cynghorau Dosbarth yng Ngogledd Iwerddon ac mae'n weithredol ers mis Mehefin 2003. Cyflwynwyd Eat Safe yn yr Alban ym mis Ionawr 2005 a dyfarnwyd y nod i dros 300 o fusnesau hyd yma.

Ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â bwyd a phorthiant er mwyn diogelu'r cyhoedd

- 2.13** Mae ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â bwyd a phorthiant yn rhan fawr o'n gwaith. Ymdriniwyd â 1330 o ddigwyddiadau o'r fath yn ystod 2006/07. Ein nod, bob amser, yw gweithredu mewn ffordd gymesur yn seiliedig ar risg, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a sefydliadau partner eraill, ar ôl ceisio cynghor gan arbenigwyr annibynnol. Rydym yn cydnabod nad oes y fath beth â dim risg o gwbl, a'n nod yw lleihau risg i lefel sy'n dderbyniol i'r defnyddiwr cyffredin, tra'n ystyried risgiau penodol i grwpiau diameddifyn.
- 2.14** Mae rhagor o ddatblygiadau i'n systemau ymateb i ddigwyddiadau yn mynd rhagddynt a disgwylir iddynt ddwyn ffrwyth yn ystod 2007/08. Bydd y datblygiadau hyn yn bwydo i'n strategaeth lleihau digwyddiadau. Maent yn cynnwys:
- ffurflen ar-lein ddiwygiedig i'r diwydiant gofnodi digwyddiadau;
 - proses allanol ar gyfer adolygu digwyddiadau; a
 - y Prosiect Dadansoddi Data (DAP), a fydd yn edrych ar y data ar ddigwyddiadau sydd gennym, sy'n cwmpasu'r cyfnod 2000-2006. Defnyddiwyd yr allbwn cyntaf o'r DAP i greu Adroddiad Blynyddol yr FSA o Ddigwyddiadau ar gyfer 2006.

Tasglu Twyll Bwyd

- 2.15** Yn dilyn yr achosion o adalw cynnyrch yn ymwneud â Sudan I yn 2005⁴ sefydlwyd Tasglu Digwyddiadau Bwyd. Roedd y Tasglu'n enghraifft dda o randdeiliaid allweddol yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn nodi ffyrdd o atal achosion o ddigwyddiadau bwyd ac ymateb iddynt. Cwblhaodd y Tasglu ei waith drwy gyhoeddi dogfen 'Principles for preventing and responding to food incidents'. Mae'r Tasglu hefyd wedi datblygu dogfen gwyno fyrrach ar gyfer busnesau bach. Bydd lledaenu'r canllaw hwn i fusnesau bwyd yn y DU yn dasg allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ceir copïau o'r ddwy ddogfen ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/incidentguidance/principlesdoc

Tasglu Digwyddiadau Bwyd

- 2.16** Ym mis Ebrill 2006, cytunodd Bwrdd yr FSA ar y cylch gorchwyl, y rhaglen waith a'r amserlen ar gyfer Tasglu Twyll Bwyd newydd, a gadeirir gan Dr Philip Barlow, cyn-Athro Cyswllt Gwyddor a Thechnoleg Bwyd ym Mhrifysgol Genedlaethol Singapôr. Nod y tasglu yw sicrhau y caiff unrhyw fylchau yn y gyfraith a'r gweithdrefnau rheoli eu nodi a'u cau er mwyn ei gwneud mor anodd â phosibl i ymgymryd â gweithgareddau twyllodrus. Bydd y Tasglu yn canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar y sector cig ac yn dysgu gwersi a gaiff eu hymestyn yn fwy cyffredinol i weddill y diwydiant bwyd.
- 2.17** Mae gwaith y tasglu yn mynd rhagddo drwy archwilio meysydd yn cynnwys nodau iechyd, trefniadau arolygu ac archwilio ar gyfer busnesau bwyd, a digonolrwydd y fframwaith gyfreithiol bresennol ar gyfer erlyn a pha mor addas yw'r cosbau. Rhagwelir y bydd y tasglu'n cyflwyno ei adroddiad terfynol i'r Bwrdd ei ystyried ym mis Hydref 2007.

Dosbarthu ardaloedd cynaeafu cregynbysgod (molysgiaid deufalf) yn yr hirdymor

- 2.18** Mae ein system ddosbarthu hirdymor (LTC) ar gyfer ardaloedd cynaeafu cregynbysgod yng Nghymru a Lloegr yn weithredol ers mis Mai 2006. Ei nod yw gwella trefniadau dosbarthu mewn modd ymarferol, gorfodadwy, sy'n dderbyniol yn gyfreithiol, ac sy'n gwella'r gwaith o ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r system LTC yn galluogi ymchwiliadau i gael eu gwneud ar unwaith i holl ganlyniadau samplau'r dosbarthiadau er mwyn rheoli prosesau cynaeafu cregynbysgod mewn ardaloedd lle roedd y canlyniadau microbiolegol yn mynd y tu hwnt i'r lefelau a nodwyd. Datblygwyd y system mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod adolygiad o'r camau dosbarthu a dau ymgynghoriad cyhoeddus.
- 2.19** Caiff ardaloedd cynhyrchu eu categorio yn ôl lefel yr halogiad gan *Escherichia coli* (*E. coli*) a ganfyddir yn y cregynbysgod sampl. Rhaid i'r holl gregynbysgod a roddir ar y farchnad i'w bwyta fodloni safon cynnyrch terfynol o lai na 230 *E. coli* fesul 100 gram o gig. Caiff ardaloedd eu dosbarthu yn ddosbarth A, B, C, neu D yn dibynnu ar y lefel *E. coli* fesul 100 gram o gig.

⁴ Llifynnau coch yw llifynnau Sudan a ddefnyddir ar gyfer lliwio toddyddion, olewau, cwyrâu, petrol a llathryddion esgidiau a lloriau. Ni chaniateir i lifynnau Sudan gael eu hychwanegu i fwyd yn y DU a gweddill yr UE. Yn 2005, fe'u canfuwyd mewn nifer o gynnyrch bwyd a gafodd eu tynnu oddi ar y farchnad o ganlyniad i hynny.

2.20 Ers pennu statws LTC sylfaenol ardaloedd cynaeafu bu'n bosibl llunio rhaglen gynllunio fwy sefydlog ar gyfer marchnata molysgiaid deufalf byw (cregynbysgod sy'n bwydo drwy hidlo fel wystrys, cregyn gleision, cocos a chregyn bylchog), yn enwedig o ardaloedd Dosbarth B. Mae'r system dosbarthu LTC hefyd yn caniatáu i fesurau cyfyngol tymor byr gael eu cymryd pan geir canlyniadau microbiolegol anarferol o uchel. Mae'r mesurau hyn yn gwella diogelwch iechyd y cyhoedd ac yn rhoi amser i gynnal ymchwiliadau i'r rhesymau dros ganlyniadau mor uchel ac i asesu statws yr ardal dan sylw lle ceir y cregynbysgod mewn perthynas â'i dosbarthiad cyffredinol.

2.21 Wrth drafod a chytuno gyda'r diwydiant a chydag awdurdodau lleol, mae elfennau o LTC Cymru a Lloegr wedi'u hymgorffori yn y protocol dosbarthu yn yr Alban. Mae'r protocol ar gyfer ymchwilio i ganlyniadau sydd y tu allan i'r fanyleb wedi gwella.

Mwy am ddiogelwch bwyd

Ni allwn drafod pob pwn sy'n ymwneud â diogelwch bwyd yn yr adroddiad blynyddol hwn. Ewch i'n gwefan www.food.gov.uk i gael gwybod mwy am yr hyn rydym yn ei wneud. Yn 2006/07, rhoddodd ein Canolfan Newyddion sylw i straeon am:

- deddfwriaeth hylendid bwyd Ewropeaidd
- canllawiau newydd i'r diwydiant ynghylch arferion hylendid da
- ein cynllun peilot 'scores on the doors' sy'n gadael i gwsmeriaid weld pa mor dda y gwnaeth busnesau bwyd yn eu harchwiliad diwethaf
- profi am fotocsinau morol mewn cregynbysgod
- ein fideo 'Bacteria Bites Business', sydd ar gael ar-lein bellach
- canllaw diwygiedig ar fformiwla llaeth powdr i fabanod
- canllaw i gigyddion ar dynnu deunydd risg penodedig (SRM)
- cyngor i ffermwyr gwenith
- cyngor ar fotwliaeth mewn gwartheg
- reis GM anghyfreithlon
- yr achosion o fflw adar yn Suffolk
- Salmonella mewn wyau nad ydynt wedi dod o'r DU
- camau monitro a rheolaethau ar ôl Chernobyl
- y gwaharddiad parhaus ar kava kava mewn bwyd
- anifeiliaid wedi'u clonio a'u hepil

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain. Ewch i www.food.gov/news/ i ddod o hyd i'r straeon hyn a llawer mwy.



Pennod 3 Bwyta er iechedd

Pennod 3 Bwyta er iechyd

Cipolwg ar y flwyddyn a aeth heibio

Yn 2006/07 cyflawnwyd y canlynol:

- sefydlu'r Grŵp Llywio Strategaeth Maeth (NSSG)
- gweld lleihad canologol yn lefelau'r halen a fwyteir ar gyfartaledd (i lawr o 9.5g i 9.0g y diwrnod) ym Mhrydain Fawr
- dod i gytundeb â 70 o fusnesau neu gymdeithasau masnach sydd wedi ymrwymo i leihau halen
- lansio cam newydd yn ein hymgyrch halen i leihau lefelau halen ymhellach
- cyflwyno ein hymateb i ymgynghoriad Ofcom ar opsiynau ar gyfer tynhau rheoliadau ar hysbysebion bwyd i blant ar y teledu
- cyhoeddi adolygiad systematig o effaith deiet a maeth ar ddysgu ac addysg plant a'u perfformiad yn yr ysgol
- cyhoeddi manylebau maetholynnau targed (TNS) ar gyfer amrywiaeth o fwydydd wedi'u gweithgynhyrchu a ddefnyddir mewn prydau ysgol

3.1 Mae gwella deiet ac iechyd yn ganolog i'n hamcanion. Er ein bod yn rhannu'r cyfrifoldeb dros faeth gydag adrannau iechyd, mae gennym rôl arbennig o ran sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn gwneud dewisiadau hyddysg ynglŷn â'u deiet. Mae hyn yn eu helpu i benderfynu pa newidiadau sydd angen iddynt eu gwneud i'w deiet ac i roi'r newidiadau hyn ar waith.

3.2 Ni allwn gyflawni hyn ar ein pennau ein hunain. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag adrannau iechyd, adrannau addysg, awdurdodau lleol, ysgolion, grwpiau buddiant iechyd y cyhoedd, grwpiau defnyddwyr, y diwydiant bwyd, ac eraill. Er mwyn monitro cynnydd, rydym yn parhau i weithio gydag adrannau iechyd ac eraill i gasglu gwybodaeth briodol ar ddeiet a maeth pobl. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid i helpu i gyflawni cynlluniau gweithredu maeth cenedlaethol yng ngwledydd gwahanol y DU - y Cynllun Gweithredu Bwyd ac Iechyd yn Lloegr, y Strategaeth Maeth 'Bwyd a Lles' yng Nghymru, Strategaeth Deiet a Maeth yr Alban, a Chynllun Gweithredu Bwyd a Maeth Gogledd Iwerddon.

3.3 Mae ein gwefan www.eatwell.gov.uk yn llawn cyngor ymarferol ac awgrymiadau ar fwyta'n iachach a deall labeli bwyd. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth fanwl am siopa, coginio a storio bwyd yn ddiogel. Cafodd y safle ei ddatblygu fel rhan

o'n strategaeth i helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau hyddysg, sicrhau ei bod yn haws i bobl ddewis deiet iach a lleihau clefydau sy'n gysylltiedig â deiet. Caiff ein cyngor ei ategu gan y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf. Caiff nifer o dudalennau y wefan *eatwell* eu cysylltu'n uniongyrchol â www.food.gov.uk, lle ceir gwybodaeth fanylach.

Y Grŵp Llywio Strategaeth Maeth

- 3.4** Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni ein nod cyffredin sef gwella iechyd ein cenedl. Ym mis Hydref 2006, cyhoeddodd yr FSA a'r Adran Iechyd y câi'r Grŵp Llywio Strategaeth Maeth (NSSG) ei sefydlu. Bydd yr NSSG sy'n dod â chynrychiolwyr allweddol o fyd diwydiant, grwpiau defnyddwyr ac iechyd ynghyd, yn helpu i sicrhau gwelliannau ym maes iechyd drwy bolisiau deiet a maeth yn cynnwys y rhai a nodwyd yn y papur gwyn Dewis Iechyd⁵. Mae'r grŵp hwn yn cynrychioli cryn ymrwymiad ar draws y diwydiant a'r llywodraeth i sicrhau y bydd y camau a gymerir i helpu pobl i wneud dewisiadau byw'n iach yn cael effaith sylweddol. Caiff yr NSSG ei gadeirio ar y cyd gan y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Chadeirydd yr FSA.
- 3.5** Yn y cyfarfod cyntaf, cytunodd y grŵp i ganolbwyntio ar ddatblygu ein hymrwymiad i gynnal asesiad annibynnol o gynlluniau gwybodaeth am faeth ar labelu blaen pecynnau. Cytunodd yr NSSG mai amcan yr ymchwil oedd gwerthuso effaith cynlluniau labelu 'blaen pecynnau' ar ymddygiad prynu a gwybodaeth defnyddwyr. Bydd canlyniadau'r ymchwil annibynnol yn cynnig ffordd glir ymlaen i'r llywodraeth a'r diwydiant ar y mater hwn. Gallwch gael mwy o wybodaeth am y grŵp a'i waith ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/healthiereating/nutcomms/nutritionstrategy/

Halen

- 3.6** Dengys arolygon a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007 fod lefelau'r halen a fwyteir ar gyfartaledd ym Mhrydain Fawr wedi lleihau o 9.5g y diwrnod pan gawsant eu mesur ddiwethaf yn 2000/01 i 9.0g y diwrnod. Mae'r arolygon, a gynhaliwyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban rhwng mis Hydref 2005 a mis Tachwedd 2006, yn dangos effaith y gwaith a wnaed gennym ni a'n partneriaid mewn adrannau eraill, y diwydiant bwyd a sefydliadau anllwywodraethol yn ystod camau cynnar yr ymgyrch halen. Mae'r canlyniad calonogol hwn yn rhoi hwb i'n gwaith i barhau i leihau lefelau yr halen a fwyteir.
- 3.7** Cyhoeddwyd targedau lleihau halen gwirfoddol ar gyfer 85 o gategorïau o fwyd ym mis Mawrth 2006. Mae 70 o fusnesau neu gymdeithasau masnach wedi ymrwymo i leihau halen ac mae'r rhan fwyaf yn gweithio tuag at gyrraedd y targedau hyn. Gwnaed cynnydd da tuag at gyrraedd targedau lleihau halen a bennwyd ar draws pob sector o'r diwydiant bwyd. Mae prif fanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr yn rhoi cefnogaeth wirioneddol i'r ymgyrch, yn cynnwys Sainsbury's, Co-op, Marks and Spencer, ASDA, Tesco, Nestlé, Heinz a Birds Eye. Mae nifer o grwpiau iechyd, grwpiau o'r sector cyhoeddus a grwpiau gwirfoddol, yn cynnwys Sefydliad Prydeinig y Galon, Cyngor Swydd Gaint a'r Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Plant yn cynnal prosiectau gyda chymunedau penodol i leihau lefelau halen, a rhoddir grantiau gan yr FSA.

⁵ Ar gael ar wefan yr Adran Iechyd yn www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/PublicationsPolicyAndGuidanceArticle/fs/en?CONTENT_ID=4094550&chk=aN5Cor

- 3.8** Y cam nesaf yw llunio fframwaith cyflwyno adroddiadau i olrhain cynnydd y diwydiant tuag at gyflawni'r targedau hyn. Mae angen i'r fframwaith ddarparu digon o wybodaeth i'n galluogi i olrhain cynnydd, ac i gyfrannu i adolygiad o'r targedau yn 2008, ond i wneud hynny heb roi baich gweinyddol gormodol ar y diwydiant. Datblygwyd dull o gasglu data a chanllawiau ar gyfer cwblhau ac fe'u trafodir gyda rhanddeiliaid.

Yr ymgyrch halen

- 3.9** Lanswyd cam newydd o ymgyrch halen yr FSA ym mis Mawrth 2007, yn cynnwys cyfres o hysbysebion teledu, a hysbysebion yn y wasg ac ar bosteri, yn annog pobl i weld a yw'r cynnyrch bwyd y maent yn ei brynu yn 'llawn ohono'. Mae'r hysbysebion yn cyfleu'r neges bod 75% o'r halen a fwytawn eisoes yn y bwyd a brynwn. Maent yn nodi y gall lefelau halen amrywio'n helaeth rhwng cynnyrch tebyg, ac felly y dylai pobl ddarllen labeli a cheisio dewis yr opsiwn sy'n cynnwys llai o halen. Mae'r ymgyrch yn ategu ein gwaith gyda'r diwydiant bwyd i leihau lefelau halen mewn bwyd.



Ymgynghoriad Ofcom ar hysbysebu bwyd i blant

- 3.10** Y llynedd, cyflwynwyd adroddiad ar ein gwaith o ddatblygu model proffilio maetholion er mwyn ategu gwaith y rheoleiddiwr cyfathrebu annibynnol yn y DU, Ofcom, sydd â'r nod o sicrhau cydbwysedd gwell yn y broses o hysbysebu bwyd i blant drwy gyfyngu ar yr hysbysebion a'r deunydd hyrwyddo bwyd sy'n cynnwys llawer o fraster, halen neu siwgr (bwydydd HFSS) i blant. Cyflwynwyd y model yn ffurfiol i Ofcom ym mis Rhagfyr 2005.
- 3.11** Ym mis Chwefror 2007 cyhoeddodd Ofcom gyfyngiadau newydd sy'n effeithio ar y broses o hysbysebu cynnyrch bwyd a diod sy'n cynnwys llawer o fraster, halen neu siwgr yn ystod unrhyw raglen sy'n apelio'n benodol i blant o dan 16 oed. Rydym wedi croesawu'r mesurau newydd hyn.

Adolygu effeithiau deiet ar ddysgu plant

- 3.12** Ym mis Gorffennaf 2006 cyhoeddwyd adolygiad systematig o effaith deiet a maeth ar ddysgu ac addysg plant a'u perfformiad yn yr ysgol. Cynlluniwyd yr adolygiad gan Brifysgol Teesside i asesu pa mor gryf yw'r dystiolaeth o astudiaethau a gyhoeddwyd eisoes ar blant rhwng pedair a 18 oed. Hefyd archwiliodd ansawdd a dibynadwyedd yr astudiaethau. Dewiswyd astudiaethau yn edrych ar effaith y canlynol ar blant er mwyn cynnal adolygiadau manwl systematig arnynt:
- brecwast (15 o astudiaethau)
 - faint o siwgr a fwyteir ar blant gydag Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywio'rwydd yn y byrdymor (chwe astudiaeth)
 - ychwanegion olew pysgod ar blant sydd â symptomau anhwylderau dysgu ac ymddygiad (pum astudiaeth)
 - fitaminau ychwanegion mwynau (dwy astudiaeth)

- 3.13** Amlygodd yr adolygiad, oherwydd y nifer fach o astudiaethau sydd ar gael a'r ffaith eu bod yn amrywio'n eang o ran cynllun, nad oes digon o dystiolaeth o safon i lunio casgliadau cadarn ar effaith maeth a newidiadau deietegol ar ddysgu, addysg na pherfformiad plant ysgol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oes digon o dystiolaeth chwaith i lunio casgliad cadarn ar effaith asidau brasterog omega 3 ar addysg na dysgu'r boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o dystiolaeth o fuddiannau ar gyfer rhai plant ag anawsterau dysgu.
- 3.14** Mae hefyd yn hysbys bod bwyta brecwast a deiet cytbwys ac iach yn fanteisiol o ran datblygiad cyffredinol plentyn ac er mwyn cynnal iechyd da. Dangoswyd bod deiet iach yn lleihau'r risg o ddatblygu cyflyrau sy'n gysylltiedig â deiet fel afiechyd cardiofasgwlaidd a rhai canserau. Felly erys ein cyngor deietegol ar gyfer plant a phobl ifanc yr un fath.

Manylebau maetholion ar gyfer arlwywyr ysgol

- 3.15** Ym mis Mai 2006 cyhoeddwyd manylebau maetholynnau targed (TNS) ar gyfer amrywiaeth o fwydydd wedi'u gweithgynhyrchu a ddefnyddir mewn prydau ysgol. Datblygwyd y TNS i ategu safonau sylfaenol newydd ar gyfer bwyd ysgol ledled y DU a bennwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES), ac i gynorthwyo arlwywyr i gyrraedd y safonau ar gyfer cinio ysgol. Mae'r TNS yn wirfoddol ac maent yn pennu uchafswm lefelau ar gyfer cyfanswm braster, braster dirlawn, sodiwm/halen a siwgr mewn bwydydd wedi'u gweithgynhyrchu yn cynnwys bara, cynnyrch dofednod, cawl, selsig a byrgys. Pennwyd lefelau sylfaenol hefyd ar gyfer protein mewn rhai cynnyrch i lysfwytywyr.
- 3.16** Yn Lloegr mae'r safonau ehangach a sefydlir gan DfES yn berthnasol i fwyd a weinir amser cinio a bwyd nad yw'n ginio (e.e., o beiriannau prynu bwyd neu siopau bwyd). Cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth Bwyd Ysgol ganllawiau manwl i helpu ysgolion i weithredu'r safonau newydd. Gallwch gael mwy o wybodaeth yn findoutmore.dfes.gov.uk/2007/02/school_meals_he.html a www.schoolfoodtrust.org.uk/content.asp?ContentId=236
- 3.17** Yn ddiweddar pasiwyd y Mesur Ysgolion (Hybu Iechyd a Maeth) (yr Alban) gan Senedd yr Alban i ychwanegu at bolisiau ysgolion sy'n hybu iechyd a chyflawniadau'r fenter Hungry for Success. Bydd y Mesur yn sicrhau bod hybu iechyd yn un o brif amcanion ysgolion ac yn cyflwyno rheoliadau maeth statudol ar gyfer bwyd a ddarperir mewn ysgolion yn yr Alban.

Mwy am fwyta er iechyd

Ni allwn drafod yr holl ddatblygiadau bwyta er iechyd yn yr adroddiad blynyddol hwn. Ewch i'n gwefan www.food.gov.uk i gael gwybod mwy am yr hyn rydym yn ei wneud. Yn 2006/07, rhoddodd ein Canolfan Newyddion sylw i straeon am:

- ein cefnogaeth barhaus i wefan Gweledigaeth Bwyd www.foodvision.gov.uk
- gwella deiet yn yr Alban
- gwella deiet yng Nghymru
- yr ymgyrch 'two a week' yng Ngogledd Iwerddon
- ein gwaith parhaus gydag ysgolion a phobl ifanc
- canllawiau ar faeth i gartrefi gofal
- ein hymgyngoriad arfaethedig ar opsiynau ar gyfer gwella statws ffolad merched ifanc

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain. Ewch i www.food.gov/news/ i ddod o hyd i'r straeon hyn a llawer mwy.



Pennod 4 Dewis

Cipolwg ar y flwyddyn a aeth heibio

Yn 2006/07:

- cawsom gefnogaeth gynyddol i'n labeli nodi lliw goleuadau traffig a argymhellwyd
- sefydlwyd Panel Rheoli Prosiect annibynnol i ddatblygu gwerthusiad o effaith labeli maeth ar flaen pecynnau ar ymddygiad siopa
- fe'm calonogwyd gan ein Harolwg blynyddol o Agweddau Defnyddwyr sy'n amlygu nifer o dueddiadau deiet ac iechyd sydd wedi dod i'r amlwg ers 2000
- cyhoeddwyd canlyniadau gwobrau'r Fonesig Sheila McKechnie a chynlluniau gwobrau cymunedol eraill
- cyhoeddwyd canllawiau ar labelu alergedd
- cyflwynwyd rhybuddion alergedd dros e-bost a negeseuon testun

4.1 Mae angen i ddefnyddwyr gael gwybodaeth er mwyn gwneud dewisiadau. At hynny, mae angen gwahanol fathau o wybodaeth ar ddefnyddwyr gwahanol ac efallai eu bod am osgoi bwydydd penodol am resymau crefyddol, moesegol neu ddiwylliannol. Ein nod yw ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr wneud dewisiadau hyddysg. Ein rôl ni yw sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei darparu i'r bobl gywir, ei bod yn gywir, ac nad yw'n gamarweiniol.


Labeli

4.2 Cafwyd mwy o gefnogaeth i'n labeli nodi lliw goleuadau traffig a argymhellwyd yn ystod y flwyddyn. Croesawodd grwpiau defnyddwyr a sefydliadau sy'n pryderu am effaith deiet ar iechyd y penderfyniad gan nifer o fanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr gyflwyno gwybodaeth ar ffurf lliwiau goleuadau traffig ar labeli ar flaen pecynnau. Mae Sainsbury's a Waitrose wedi bod yn defnyddio ein hegwyddorion a argymhellir ar gyfer labeli ar flaen pecynnau ers dros flwyddyn. Dechreuodd McCain, Co-op, Marks and Spencer, Budgen/Londis, the New Covent Garden Food Co, ASDA ac eraill ddefnyddio ein system labelu yn ystod 2006/07.

4.3 Dylai gwybodaeth ar ffurf lliwiau goleuadau traffig ar labeli ar flaen pecynnau arwain at dair mantais fawr. Bydd yn:

- ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr fwyta'n iachach
- annog defnyddiwr i chwilio am fwydydd iachach a mynnu cael bywydd iachach
- rhoi cymhelliant i fusnesau cynhyrchu bwydydd sy'n isel mewn braster, braster dirlawn, halen neu siwgr

- 4.4** Ym mis Ionawr 2007, lansiwyd ymgyrch hysbysebu fel rhan o'n gweithgaredd parhaus i godi ymwybyddiaeth o labeli ar ffurf goleuadau traffig ac egluro sut y gellir eu defnyddio i helpu i wneud dewisiadau iachach. Ymhlith y gweithgareddau marchnata roedd hysbysebion teledu, hysbysebion yn y wasg, posterïa a deunydd ar y we.
- 4.5** Rydym yn parhau i annog archfarchnadoedd a gweithgynhyrchwyr eraill nad ydynt wedi mabwysiadu ein system labelu i wneud hynny. I gael cefndir i'r gwaith o ddatblygu ein system labelu a argymhellir a rhagor o wybodaeth am labeli gweler ein gwefan yn www.eatwell.gov.uk/foodlabels/trafficlights/



Datblygu'r broses o werthuso labelu ar flaen pecynnau

- 4.6** Sefydlwyd Panel Rheoli Prosiect annibynnol i ddatblygu gwerthusiad o effaith labeli maeth ar flaen pecynnau ar ymddygiad siopa. Cytunodd y Grŵp Llywio Strategaeth Maeth (NSSG) ar gwmpas y gwerthusiad ac aelodau'r panel. Caiff y panel ei gadeirio gan Sue Duncan, Pennaeth Uned Ymchwil Gwyddor Gymdeithasol y Llywodraeth, ac mae'n cynnwys arbenigwyr annibynnol mewn gwyddor maeth a gwyddor gymdeithasol, yn cynnwys ymchwil y farchnad. Byddant yn cytuno ar fanylebau'r prosiect, yn goruchwyllo'r broses o arfarnu'r cynigion, ac yn monitro'r astudiaeth. Rydym yn disgwyl y cyflwynir adroddiad ar yr astudiaeth erbyn diwedd 2007.

Arolwg o Agweddau Defnyddwyr

- 4.7** Mae ein hymchwiliad blynyddol i farn defnyddwyr tuag at fwyd yn cwmpasu materion fel hylendid a diogelwch, siopa, deiet a maeth. Mae canlyniadau'r Arolwg o Agweddau Defnyddwyr yn helpu i'n hysbysu am dueddiadau defnyddwyr o ran bwyd. Maent hefyd yn ein helpu i benderfynu ar y meysydd y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt os ydym am gynnal hyder defnyddwyr yn y system reoliadol ar gyfer diogelwch a safonau bwyd.
- 4.8** Mae arolwg 2006 yn amlygu nifer o dueddiadau deiet ac iechyd sydd wedi dod i'r amlwg ers 2000, yn cynnwys:
- cynnydd blynyddol sylweddol yn nifer y defnyddwyr sy'n ymwybodol y dylent fwyta o leiaf bum cyfran o ffrwythau a llysiau y dydd. Mae bron i un rhan o dair yn fwy o ddefnyddwyr bellach yn ymwybodol y dylent fwyta o leiaf 5-y-dydd o gymharu â 2000
 - fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, mae faint o fraster, halen a siwgr a geir mewn bwyd yn parhau i fod yn destun pryder i ddefnyddwyr. Soniwyd am halen gan dros hanner sampl y DU, a soniwyd am fraster a siwgr gan fwy na dwy ran o bump o'r ymatebwyr
 - dywed nifer cynyddol o ddefnyddwyr eu bod yn edrych ar wybodaeth maeth ar labeli bwyd er mwyn gweld faint o fraster a halen sydd ynddynt wrth eu prynu am y tro cyntaf
 - mae bron i hanner y bobl yn honni eu bod yn ceisio cynyddu faint o ffrwythau ffres y maent yn eu bwyta. Roedd bron i ddwy ran o bump yn ceisio cynyddu faint o llysiau maent yn eu bwyta, ac roedd bron i chwarter y defnyddwyr yn ceisio bwyta mwy o salad

- cytunodd tair rhan o bump o'r rhai a gyfwelwyd y byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth am y bwyd y maent yn ei brynu, gyda hanner yn dweud ei bod yn anodd gwybod a yw cynnyrch yn iach o edrych ar y label
- dywedodd dwy ran o bump o'r bobl a ddywedodd eu bod yn bwyta byrbrydau rhwng prydau, eu bod yn bwyta ffrwythau ffres. Fodd bynnag, roedd bron i un rhan o dair yn bwyta bisgedi/cacenni ac un rhan o bump arall yn bwyta creision/byrbrydau sawrus

4.9 Ynghyd ag olrhain ymwybyddiaeth am faterion allweddol sy'n ymwneud â bwyd, amlygodd Arolwg Agweddau Defnyddwyr 2006 hefyd y ffaith bod ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r FSA a'i rôl o ran rhoi cyngor clir i ddefnyddwyr yn parhau i godi. Mae hyn yn cynnwys cynnydd sylweddol, ers 2001, yn nifer y bobl sy'n credu bod yr FSA yn sefydliad y gallant ymddiried ynddo, a chynnydd sylweddol, ers 2000, yn y nifer a nododd eu bod yn hyderus ynghylch rôl yr FSA yn diogelu iechyd o ran diogelwch bwyd.



4.10 Nododd un rhan o dair o'r bobl a gyfwelwyd yn yr arolwg fod yr FSA yn sefydliad y byddent yn ei ddefnyddio ar gyfer gwybodaeth am ddiogelwch bwyd a straeon am beryglon bwyd; nododd chwarter fod yr FSA yn ffynhonnell cyngor ar fwyta'n iach. Roedd mwy na hanner yn credu bod yr FSA yn rhoi gwybodaeth a chynghor clir.

4.11 Mae canlyniadau llawn arolwg 2006 ar gael ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/science/surveys/foodsafety-nutrition-diet/cas07

Cynlluniau gwobrau bwyd cymunedol

4.12 Mae gan fentrau bwyd cymunedol ran bwysig i'w chwarae yn y broses o annog pobl i feddwl am y bwyd a fwyteir ganddynt ac o ble y mae'n dod. Yn 2005 sefydlwyd gwobrau'r Fenter Bwyd Cymunedol fel teyrnged i'r ddiweddar Fonesig Sheila McKechnie, i goffáu'r cyfraniad a wnaeth i helpu i sefydlu'r FSA. Maent yn dathlu'r cyfraniad gwerthfawr y mae mentrau bwyd cymunedol yn ei wneud i'w cymunedau lleol, drwy wella mynediad i fwyd o safon am brisiau fforddiadwy. Dewisir dwy fenter bwyd gymunedol bob blwyddyn a bydd y naill a'r llall yn derbyn £15,000 (£5,000 y flwyddyn) dros gyfnod o dair blynedd. I gael mwy o wybodaeth, gweler ein gwefan yn www.food.gov.uk/news/newsarchive/2007/apr/mckechnie2007

4.13 Ymysg y panel beirniadu ar gyfer y wobr eleni roedd Cadeirydd yr FSA Deirdre Hutton, y darlledwr newyddion Jon Snow a Tim Lang, Athro Polisi Bwyd yn City University. Yr enillwyr yn 2007 oedd:

- Healthy Eating for Life, a gaiff ei redeg gan yr elusen Sandown Bay ar Ynys Wyth, sy'n gweithio gyda merched rhwng 14 a 25 oed sy'n feichiog, neu sydd â phlant ifanc, neu sydd wedi'u hallgáu o sawl agwedd ar gymdeithas prif ffrwd am resymau eraill; a
- Flava Café yng nghanol Leamington Spa, caffi dysgu am fwyd a gweithredu gwirfoddol, sy'n gweithio gydag amrywiaeth o aelodau cymunedol, yn cynnwys pobl ar incwm isel, plant, rhieni unigol, pobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor, pobl hŷn, lleiafrifoedd ethnig a chrefyddol.

4.14 Mae'r cynllun Gwobrau am Fentrau Bwyd Lleol (AFAL) blynyddol yng Nghymru yn cydnabod cyfraniad unigolion a thimau i fentrau maeth lleol sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeiet neu arferion bwyta trigolion yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Mae'r gwobrau yn galluogi FSA Cymru i nodi arfer da ac annog eraill i ymgymryd â gweithgareddau codi ymwybyddiaeth tebyg. Dyfernir £2,000 i bob prosiect buddugol a bowlen ffrwythau i nodi'r achlysur. Y pum prosiect a wobrwyyd yn 2006 oedd:

- Young@Heart – Blaenau Gwent
- You are what you eat – Castell-nedd Port Talbot
- Grŵp Maeth Bwrdeistref Caerffili
- Grŵp Cinio Nos 4Winds – Caerdydd
- FoodMatters/Bwyd o Bwys – Trelái a Chaerau

4.15 Gwobrwyyd pum prosiect arall am ddod yn ail. Cawsant £1,000 a bowlen ffrwythau i nodi'r achlysur. Mae mwy o wybodaeth am AFAL, gan gynnwys manylion yr enillwyr, ar gael ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/wales/nutwales/afal/

Canllawiau ar labelu alergedd

4.16 Ym mis Gorffennaf 2006 cyhoeddwyd canllawiau i helpu cynhyrchwyr a manwerthwyr bwyd i wella cyngor ar labelu i bobl ag alergeddau. Mae'r canllawiau gwirfoddol yn defnyddio enghreifftiau o 'arfer gorau' i helpu busnesau i ddarparu labeli cyngor priodol sy'n haws i ddefnyddwyr eu deall. Mae hefyd yn helpu busnesau i asesu'r risg o groeshalogi ag alergenau.

4.17 Mae gan hyd at 1.5 miliwn o bobl yn y DU alergedd bwyd. Mae'n hanfodol eu bod yn cael eu hysbysu'n llawn o gynnwys y bwydydd a brynant. Dengys ein hymchwyl y defnyddir amrywiaeth o rybuddion fel 'gall gynnwys cnau' mor gyffredin ar fwydydd wedi'u pacio'n barod fel na all llawer o ddefnyddwyr asesu'r risgiau a'u bod yn eu hanwybyddu. Nid oes unrhyw reoliadau statudol sy'n rheoli'r broses o labelu presenoldeb posibl alergenau oherwydd croeshalogi bwydydd ar draws y gadwyn gyflenwi. Gall y canllawiau newydd hyn wella'r sefyllfa gryn dipyn i'r rhai yr effeithir arnynt.

Rhybuddion am alergeddau

4.18 Weithiau mae'n rhaid tynnu bwydydd oddi ar y silffoedd neu eu hadalw os oes risg i ddefnyddwyr oherwydd bod y label alergedd ar goll neu os yw'n anghywir neu os oes risg arall o alergedd bwyd. Mewn sefyllfaoedd o'r fath byddwn yn cyhoeddi Rhybudd Alergedd. Gellir tanysgrifio i system rhybudd dros e-bost er mwyn cael negeseuon awtomatig pryd bynnag y caiff Rhybuddion Alergedd o'r fath eu cyhoeddi. Mae tanysgrifio yn broses dau gam. Er mwyn cael rhybudd dros e-bost, gallwch danysgrifio yn www.food.gov.uk/subscribe/specialistinformation/

4.19 Gallwch hefyd gael manylion yr holl rybuddion alergedd diweddaraf cyn gynted ag y cânt eu cyhoeddi drwy drefnu eich bod yn cael y manylion ar ffurf neges destun SMS yn uniongyrchol i'ch ffôn symudol. Er mwyn cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn sydd am ddim, anfonwch y neges destun 'START ALLERGY' at y rhif 62372.

Mwy am ddewis

Ni allwn drafod yr holl ddatblygiadau o ran dewis yn yr adroddiad blynyddol hwn. Ewch i'n gwefan www.food.gov.uk i gael gwybod mwy am yr hyn rydym yn ei wneud. Yn 2006/07, rhoddodd ein Canolfan Newyddion sylw i straeon am:

- canllawiau ar labelu i lysfwytawyr a figaniaid
- ein polisi ynglŷn â lleihau gweddillion pleiddiaid
- meddyginiaeth filfeddygol anghyfreithlon a gweddillion pleiddiaid
- lleihau lefelau gweddillion nicarbazin mewn cyw iâr o Brydain
- gwahaniaethau o ran maeth rhwng llaeth organig a llaeth nad yw'n organig

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain. Ewch i www.food.gov/news/ i ddod o hyd i'r straeon hyn a llawer mwy.



Pennod 5 Ein ffordd o weithio

Cipolwg ar y flwyddyn a aeth heibio

Yn 2006/07:

- datblygwyd a chyhoeddwyd ein strategaeth gwyddoniaeth ar gyfer 2005-2010
- cyhoeddwyd y cynllun rheoli cenedlaethol (NCP) cyntaf ar gyfer y DU
- cyhoeddwyd gweledigaeth newydd ar gyfer gorfodi
- sefydlwyd cronfa ddata genedlaethol ar gyfer twyll
- datblygwyd dulliau newydd o nodi achosion o dwyll o ran labelu 'organig'
- sefydlwyd presenoldeb gwaith ym mhedwar o'r naw o Swyddfeydd rhanbarthol y Llywodraeth yn Lloegr
- datblygwyd ymhellach ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy
- cyhoeddwyd ein Cynllun Symleiddio rheoliadau
- cyflwynwyd gwelog y Prif Wyddonydd

5.1 Mae ein Cynllun Strategol yn nodi'r targedau y byddwn yn eu cyflawni dros y cyfnod hyd at 2010. Nodir yr egwyddorion sy'n ategu'r ffordd yr ydym yn bwriadu gweithredu'r cynllun o dan 'ein ffordd o weithio'. Yn benodol, pwysleisiwn sut y byddwn yn ystyried datblygiad cynaliadwy ym mhob un o'n gweithgareddau a'n penderfyniadau polisi. Rydym hefyd yn amlygu pwysigrwydd y broses o weithio mewn partneriaeth â phob un o'n rhanddeiliaid i gyflawni'r targedau a osodwyd gennym. Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo amrywiaeth. Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoleb Anabledd ym mis Rhagfyr 2006. Bydd ein Cynllun Cydraddoleb Rhywiol yn dilyn maes o law, ac ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein Cynllun Cydraddoleb Hiliol a'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Cyhoeddwyd Strategaeth Gwyddoniaeth 2005-10

5.2 Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus cyhoeddwyd ein Strategaeth Gwyddoniaeth 2005-10 ym mis Gorffennaf 2006. Mae'r strategaeth yn disgrifio'r prif faterion a'r gweithgareddau rydym yn mynd i'r afael â hwy er mwyn sicrhau bod ein gwyddoniaeth yn ategu ein hamcanion strategol yn effeithiol, drwy roi sail o dystiolaeth wyddonol gadarn ar gyfer ein polisiau a'n cyngor. Mae'r strategaeth ar gael ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/sciencestrategy.pdf

5.3 Mae rhan gyntaf y strategaeth yn disgrifio'r 'hyn y byddwn yn ei wneud'. Mae'n cwmpasu rhai o'r cymhellion pwysig, y problemau a'r dystiolaeth wyddonol sy'n angenrheidiol ym mob un o'n prif feysydd gwaith. Trefnir yr ymchwil yn saith thema sy'n llifo o'n hamcanion strategol ac mae'n cefnogi'r gwaith o'u cyflawni:

- diogelwch bwyd: risgiau microbiolegol
- diogelwch bwyd: TSE (enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy)
- diogelwch bwyd: risgiau cemegol a radiolegol
- bwyta er iechyd
- dewis
- ategu cyflawniadau
- rhaglen ymchwil FSA yr Alban

5.4 Mae'r ail ran yn disgrifio 'sut y byddwn yn cyflawni hynny'. Mae'n cwmpasu sut y byddwn yn nodi ac yn cael gafael ar y dystiolaeth wyddonol sydd ei hangen arnom ac yn sicrhau y caiff ei defnyddio'n briodol ac yn agored i lywio ein polisiau a'n cyngor. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar sylfaen gadarn o arfer da sefydledig, yn cryfhau ein prosesau ar gyfer rheoli gwyddoniaeth, gan sicrhau eu bod yn fwy tryloyw, ac yn datblygu a rhannu arfer da. Cwmpesir pum prif faes:

- nodi anghenion o ran tystiolaeth, yn cynnwys chwilio'r gorwelion
- cael tystiolaeth wyddonol
- dehongli tystiolaeth wyddonol
- defnyddio tystiolaeth wyddonol
- cyfleu tystiolaeth wyddonol a sut rydym wedi'i defnyddio



5.5 Mae ein hegwyddor graidd o fod yn agored yn llywio'r fframwaith moesegol ar gyfer y Strategaeth Gwyddoniaeth gyfan. Ein nod yw dilyn yr egwyddor hon yn ein gwaith gwyddonol ein hunain ac wrth weithio gydag eraill. Mae hyn yn golygu bod yn agored ynghylch tystiolaeth a dadansoddiad gwyddonol, a'r modd rydym wedi'u defnyddio wrth wneud penderfyniad a bod yn onest ynghylch risgiau ac ansicrwydd.

5.6 Mae'r strategaeth yn amlygu nifer o feysydd rydym yn bwriadu eu datblygu a gwella ein gwyddoniaeth, yn cynnwys llywodraethu, chwilio'r gorwelion, cyfathrebu, gweithio ar y cyd, a gwella mynediad i'r gwyddorau cymdeithasol a'r defnydd ohonynt er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni ein hamcanion ar draws yr holl weithgareddau. Mae'n nodi dangosyddion llwyddiant y byddwn yn eu defnyddio i fonitro a gwerthuso cynnydd, mewn cysylltiad â'r Cynllun Strategol. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod y Strategaeth Gwyddoniaeth yn effeithiol o ran cefnogi ein hamcanion strategol a gweithgareddau ehangach, a bydd yn parhau i wneud hynny.

Cynllun Rheoli Cenedlaethol y DU

5.7 Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Cenedlaethol cyntaf ar gyfer y DU (sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ionawr 2007 a mis Mawrth 2011) ar ein gwefan ym mis Rhagfyr 2006. Fe'i paratowyd ar y cyd gan yr FSA, Defra, a'r Adranau Amaeth/Materion Gwledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a hynny er mwyn cyflawni gofyniad yn Rheoliad (CE) 882/2004 ar reolaethau swyddogol - Rheoliad y Gymuned Ewropeaidd sy'n nodi'r gofynion ar gyfer yr awdurdodau rheoliadol/gorfodi yn yr Aelod-wladwriaethau yn y sectorau bwyd anifeiliaid, bwyd,

iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid. Diben y cynllun yw sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd a rheolau iechyd a lles anifeiliaid (a rheolau iechyd planhigion hefyd) a'u gorfodi. Mae'r Cynllun Rheoli Cenedlaethol, am y tro cyntaf, yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o'r dirwedd reoliadol yn y DU. Mae'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol awdurdodau a'r cyrff cysylltiedig, ac yn rhoi trosolwg ar sut maent yn cydweithio er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, anifeiliaid a phlanhigion, ac er mwyn diogelu buddiannau'r defnyddiwr. Mae amcanion strategol y cynllun, a'r gweithgareddau rheoli swyddogol a gynlluniwyd yn ystod cyfnod y cynllun, hefyd wedi'u nodi.

Gweledigaeth newydd ar gyfer gorfodi

- 5.8** Ym mis Hydref 2006, cymeradwyodd Bwrdd yr FSA fanylion y "Weledigaeth Newydd" ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd. Mae hon yn ffordd newydd o feddwl, a fydd yn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau rheoliadol. Mae'n adeiladu ar brofiad blaenorol ac ar egwyddorion Adolygiad Hampton⁶. Bydd sicrhau gwell hyblygrwydd i ardaloedd nad ydynt mewn perygl mawr yn cynorthwyo i godi lefelau cydymffurfio â chyfraith bwyd. Mae gwaith i ddiweddarau polisïau a threfniadau yn mynd rhagddo bellach, a chaiff ei gwblhau yn 2007/08 er mwyn ei weithredu o 1 Ebrill 2008.

Cronfa Ddata Twyll Bwyd

- 5.9** Yn unol â'n Cynllun Strategol, rydym wedi datblygu Cronfa Ddata Twyll Bwyd genedlaethol. Mae'r gronfa ddata yn defnyddio meddalwedd cudd-wybodaeth arbenigol a ddefnyddir gan asiantaethau cudd-wybodaeth eraill, gan gynnwys nifer o heddluoedd ac Uned Gydlyn Twyll Bwyd Cymru. Pan fydd yn gwbl weithredol, caiff ei defnyddio i asesu a monitro achosion o dwyll bwyd a adroddir.

Profion newydd i atal twyll bwyd a nodi twyll labelu 'organig'

- 5.10** Mae'r rhaglen dilysrwydd yn datblygu dulliau gwreiddiol o helpu i atal twyll bwyd. Datblygwyd un prawf i archwilio'r gwaith o drefnu dognau o wrthfotigau, sef un o'r meysydd rheoli o dan Reoliad Organig y GE (EEC) Rhif 2092/91. Gall y prawf ganfod presenoldeb gwrthfotigau a nifer y triniaethau a roddwyd mewn esgryn cyw iâr neu borc. Mae'r prawf hefyd yn nodi p'un a ddefnyddiwyd gwrthfotigau yn anghyfreithlon ar anifeiliaid er mwyn hybu twf. Mae prawf arall yn canfod p'un a ddefnyddiwyd gwrtaith artiffisial i dyfu cnydau o blanhigion, na chânt eu caniatáu mewn systemau tyfu organig.
- 5.11** Mae'r rhaglen hefyd wedi datblygu nifer o brofion eraill i archwilio labelu yn seiliedig ar ddulliau DNA gwahanol - adnabod rhywogaethau pysgod a chig, pasta durum, reis Basmati a sudd ffrwythau wedi'u difwyno. Cynorthwywyd 10 o ddadansoddwyr cyhoeddus i ddefnyddio'r dulliau hyn drwy roi'r holl brofion ar fformat labordy ar sglodyn syml a'u helpu i brynu'r profion a'u rhoi ar waith.

⁶ Comisiynwyd Adolygiad Hampton yn 2004 ac roedd yn cwmpasu gwaith arolygu a gorfodi 63 o reoleiddwyr cenedlaethol, yn ogystal â'r 23 o swyddfeydd safonau masnach a 408 o swyddfeydd iechyd amgylcheddol mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'n ystyried sut i leihau beichiau gweinyddol ar fusnesau heb beryglu canlyniadau rheoliadol rhagorol y DU.

- 5.12** Datblygwyd dulliau newydd o ganfod twyll labelu 'organig' ar gyfer yr FSA gan Labordy Gwyddoniaeth Canolog y Llywodraeth. Fodd bynnag, bydd swyddogion gorfodi awdurdodau lleol yn parhau i ganfod y rhan fwyaf o dwyll cam-labelu drwy archwilio 'trywydd papur' i nodi a yw cynnyrch yr honnir ei fod yn organig wedi dod o ffynhonnell ddilys. Caiff awdurdodau lleol eu hannog gan Gydgyssylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol (LACORS) a'n Grŵp Samplu Dilysrwydd i gynnal eu rhaglenni goruchwyllo eu hunain ar labelu organig. Yn ddiweddar darparwyd arian i gynorthwyo Cyngor Bwrdeistref Richmond i ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn dau fasnachwr oedd yn gwerthu cig a chynnyrch cig fel cynnyrch 'organig' a hynny drwy dwyll.

Cyflawniad yn rhanbarthol ac yn lleol



- 5.13** Mae ein Cynllun Strategol yn cydnabod yr angen i'r FSA gryfhau ei chysylltiadau a datblygu partneriaethau â sefydliadau sy'n gweithio ar lefel ranbarthol a lleol er mwyn helpu i wella'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau diogelwch bwyd bwyta'n iach allweddol yr FSA yn lleol. Yn ystod 2006, fel rhan o'r gwaith hwn, sefydlwyd presenoldeb gwaith ym mhedair o'r naw o Swyddfeydd rhanbarthol y Llywodraeth yn Lloegr. Mae timau o ddau aelod o staff yr FSA bellach yn gweithio yn swyddfeydd y Llywodraeth yn Nwyrain Canolbarth Lloegr, De-ddwyrain Lloegr, De-orllewin Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr. Megis cychwyn y mae'r fenter, ond cafodd groeso da gan yr holl randdeiliaid yn y pedwar rhanbarth lle mae gennym bresenoldeb. Mae'r timau rhanbarthol wedi ein galluogi i wella cysylltiadau lleol ac adeiladu cydberthnasau gwaith newydd â sefydliadau lleol. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau partneriaeth lleol sydd wedi helpu i gyfleu negeseuon allweddol yr FSA a chynorthwyo'r gwaith o gyflawni targedau allweddol yr FSA ar ddiogelwch bwyd, bwyta'n iach a dewis yn lleol. Gwneir penderfyniad ar gyflwyno'r fenter i'r pum rhanbarth arall yn Lloegr maes o law.

Datblygu cynaliadwy

- 5.14** Mae datblygu cynaliadwy yn ymwneud â diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae hon yn her fawr i lywodraeth sy'n ymrwymedig i integreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ei holl weithgareddau a pholisïau. Mae targedau heriol wedi'u gosod ar gyfer pob un o adrannau'r llywodraeth o ran ymrwymïadau cyffredinol, teithio, dŵr, gwastraff, ynni, caffael, rheoli ystadau, bioamrywiaeth ac effeithiau cymdeithasol. Mae'r FSA yn ymrwymedig i ystyried datblygu cynaliadwy ym mhob un o'i gweithgareddau a'i phenderfyniadau polisi. Mae rhagor o wybodaeth am ymagwedd y Llywodraeth ar y wefan

www.sustainable-development.gov.uk/index.asp

- 5.15** Er mwyn rhoi'r datganiad hwn ar waith, rydym wedi datblygu canllawiau asesu cynaliadwy i staff, sydd wedi'u cynllunio i ategu a chyd-fynd â gweithdrefnau Asesiad Effaith Reoleiddiol y Llywodraeth. Bydd hyn yn helpu i integreiddio asesiadau cynaliadwyedd â'r broses o ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau. Dangosodd ymgynghoriad cyhoeddus ar y canllawiau drafft yn 2005 gefnogaeth i'n hymagwedd a chyfrannodd tuag at ddatblygu'r canllawiau ymhellach.

- 5.16** Rydym yn monitro'r defnydd a wneir o'r canllawiau staff a'u heffeithiolrwydd. Cynhaliwyd adolygiad o asesiadau cynaliadwyedd dros gyfnod o chwe mis o fis Ebrill i fis Medi. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod asesiadau cynaliadwyedd a'r canllawiau cysylltiedig yn offer defnyddiol ar gyfer ystyried opsiynau gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried amrywiaeth ehangach o effeithiau nag y byddent wedi'i wneud yn flaenorol. Mae ein Cynllun Strategol yn cynnwys targedau a cherrig milltir sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy er mwyn helpu i asesu ein cynnydd. Mae targedau manylach yn ein Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy. Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun Gweithredu a datblygu cynaliadwy ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/aboutus/how_we_work/sustainability/

Rheoleiddio symlach

- 5.17** Mae'r llywodraeth yn ymrwymedig i leihau faint o fân reolau y mae'n eu gosod ar fusnesau a rhoi hwb i'w natur gystadleuol drwy ei pholisïau 'rheoleiddio gwell'. Rydym yn llwyr ymrwymedig i sicrhau rheoleiddio gwell oherwydd bod lleihau biwrocratiaeth yn cynnig diogelwch gwell i ddefnyddwyr. Credwn y bydd lefelau diogelwch defnyddwyr yn cynyddu, oherwydd pan fydd busnesau'n ei chael yn haws i ufuddhau i'r gyfraith yna bydd mwy ohonynt yn cydymffurfio. Bydd swyddogion gorfodi yn elwa hefyd, oherwydd byddant yn treulio llai o amser yn gwneud gwaith papur, a byddant yn rhydd i siarad â busnesau, gan gynyddu lefelau cydymffurfiaeth eto.
- 5.18** Cyhoeddwyd ein Cynllun Symleiddio, strategaeth eang gyda'r nod o leihau'r mân reolau i fusnesau, lleihau'r baich ar swyddogion gorfodi, a gwella lefelau diogelwch defnyddwyr ym mis Rhagfyr 2006. Mae'n dwyn ynghyd nifer o fentrau sydd gennym ar gyfer lleihau baich y rheoliadau rydym yn gyfrifol amdanynt. Rydym wedi cyfrifo y bydd y mesuriadau hyn gyda'i gilydd yn arbed tua £195 miliwn y flwyddyn i fusnesau a'r sector cyhoeddus, heb effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr.
- 5.19** Daw'r rhan fwyaf o'r arbedion o system profi gwartheg am BSE, sy'n lleddfu'r baich gweinyddol ar ffermwyr da byw. Dylai refferniw ffermwyr gynyddu hefyd, gan fod yr elw o werthu gwartheg i'w bwyta yn fwy na'r hyn a gaiff ffermwyr drwy'r cynllun iawndal. Ymysg y mentrau eraill ceir dadreoli trwyddedau cigyddion a GRAIL, system cronfa ddata a ddatblygwyd gyda rhai o Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd y DU. Mae'r olaf yn sicrhau y gall pob awdurdod gael gafael yn rhydd ar y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â mewnfurio bwyd.

Gwe-log y Prif Wyddonydd

- 5.20** Ym mis Tachwedd 2006, lansiodd Prif Wyddonydd yr FSA Dr Andrew Wadge flog⁷ er mwyn dangos sut y caiff cyngor yr FSA i ddefnyddwyr a'u polisïau eu hategu gan y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf. Mae'r blog wedi'i dargedu at randdeiliaid yn cynnwys y cyhoedd, cyd-wyddonwyr, y diwydiant bwyd, a gweithwyr gorfodi proffesiynol, a'i nod yw dangos pwysigrwydd ymchwil wyddonol gadarn, a sut y caiff ei defnyddio yn yr FSA i ddatblygu polisïau.

⁷ Fersiwn wedi'i dalfyrru o'r gair Saesneg "weblog" yw "blog", sef term a ddefnyddir i ddisgrifio gwefannau sy'n cronicle'r wybodaeth ddiweddaraf. Gwefan bersonol yw blog a gaiff ei diweddarau'n rheolaidd ac sy'n cynnwys sylwebaeth ar ffurf dyddiadur ac sy'n cysylltu ag erthyglau neu wefannau eraill.

Yn bwysicach na hynny, defnyddir adborth ar y cyfraniadau rheolaidd i ddatblygu ein ffordd o feddwl ar amrywiaeth o faterion gwyddonol. Gallwch ddarllen y blog yn food.gov.uk/scienceblog

- 5.21** Nod y blog yw ategu sianeli eraill o ymgysylltu ag eraill a ddefnyddiwn i ddangos ein gwerthoedd craidd sef bod yn agored, bod yn llais annibynnol, a rhoi defnyddwyr yn gyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd agored y Bwrdd, fforymau rhanddeiliaid, a'r wybodaeth ddiweddaraf a roddir ar ein gwefan www.food.gov.uk

Mwy am y ffordd rydym yn gweithio

Ni allwn drafod sut y byddwn yn cyflawni pob menter a ddechreuwyd yn 2006/07 yn yr adroddiad blynyddol hwn. Ewch i'n gwefan www.food.gov.uk i gael gwybod mwy am yr hyn rydym yn ei wneud. Yn 2006/07, rhoddodd ein Canolfan Newyddion sylw i straeon am:

- helpu rhanddeiliaid i gymryd rhan drwy ymgynghori ar bolisiau sy'n datblygu'n gyflym
- ein rhaglen o hyfforddiant diweddarau ansawdd ar gyfer gorfodwyr
- arolwg o safonau hylendid bwyd mewn safleoedd bwyd yn y DU

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain. Ewch i www.food.gov/news/ i ddod o hyd i'r straeon hyn a llawer mwy.



Atodiad 1 Ynglŷn â ni

Yr FSA

- 1 Mae'r FSA yn gorff i'r DU gyfan – sef adran anweinidogol o'r Llywodraeth – sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion ac sydd wedi'i rheoli gan Fwrdd a benodwyd i weithredu er budd y cyhoedd. Mae'r annibyniaeth hon yn allweddol i'n llwyddiant i adfer hyder y cyhoedd. Ceir ein siart trefniadaeth presennol yn atodiad 3. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn ar ein gwefan yn www.food.gov.uk. Caiff y wefan ei diweddu'n rheolaidd. Mae rhestr gyswllt fanwl fesul pwnc ar gael yn: www.food.gov.uk/aboutus/contactus
- 2 Rydym yn cynghori Gweinidogion yn holl wledydd y DU ar bob mater sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd a safonau bwyd. Rydym yn negodi ar ran y DU yn Ewrop, lle pennir llawer o'r fframwaith cyfreithiol a'r safonau ar gyfer y farchnad fwyd ac mewn fforymau rhyngwladol eraill. Rydym yn cynghori Gweinidogion ar bob mater sy'n gysylltiedig â diogelwch bwyd a safonau bwyd. Rydym yn rhoi arweiniad i'r cyhoedd ar fwyta'n iach, ac yn gweithio gyda'r diwydiant bwyd i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr wneud dewisiadau iachach. Rydym yn cynnal arolygon ar faeth a deiet er mwyn monitro newidiadau mewn arferion bwyta.
- 3 Unodd y Bwrdd Safonau Gwin (WSB), y corff anllywodraethol sy'n gyfrifol am arferion gwneud gwin, labelu gwin a chofrestr gwinllannau'r DU, â'r FSA ar 1 Gorffennaf 2006. Roedd yr uno yn un o argymhellion Adolygiad Hampton, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005, a oedd â'r nod o symleiddio gweithgareddau gorfodi yn Lloegr a lleihau nifer y cyrff gorfodi. O ganlyniad i'r cam hwn, mae'r FSA yn cymryd cyfrifoldeb dros orfodi trefn gwin yr UE yn y DU. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) sydd â chyfrifoldeb am lunio polisiau ar gyfer pob agwedd arall ar drefn gwin y Polisi Amaethyddol Cyffredin ac ar gyfer nawdd i'r diwydiant.

Bwrdd yr FSA

- 4 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ein cyfeiriad strategol cyffredinol ac am sicrhau y cyflawnir ein rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at 12 o aelodau eraill. Penodir y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (DHSSPS) yng Ngogledd Iwerddon ('yr awdurdodau priodol'). O'r aelodau presennol eraill o'r Bwrdd, penodwyd wyth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, penodwyd dau gan Weinidogion yr Alban a phenodwyd un yr un gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r DHSSPS. Mae holl aelodau'r Bwrdd wedi cyflawni llawer yn eu dewis faes. Ceir rhagor o wybodaeth am ein Bwrdd yn atodiad 2 ac ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/aboutus/ourboard/
- 5 Mae'r Prif Weithredwr yn rheoli gweithrediadau'r FSA o ddydd i ddydd. Penodir y Prif Weithredwr gan yr FSA gyda chymeradwyaeth yr 'awdurdodau priodol' yn y pedair gwlad yn y DU, Prif Weinidog y DU, a Phennaeth y Gwasanaeth Sifil, o dan reolau arferol Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Trysorlys yn penodi'r

Prif Weithredwr yn Brif Swyddog Cyfrifyddu'r FSA, gyda chyfrifoldeb dros redeg yr FSA ei hun o ddydd i ddydd. Yn benodol, mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr FSA a'u trosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae ein staff yn weision sifil, sy'n atebol drwy'r Prif Weithredwr i'r Bwrdd.

Atebolrwydd

- 6 Mae'r FSA yn atebol i Senedd San Steffan drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd, ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon drwy eu Gweinidogion lechyd neu swyddogion cyfatebol.
- 7 Mae diogelwch a safonau bwyd yn faterion datganoledig: mae gan yr FSA swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae pob un ohonynt o dan arweiniad Cyfarwyddwr, a cheir pwyllgor cynghorol statudol ar fwyd ym mhob gwlad.
- 8 Yn yr Alban, mae'r FSA yn rhoi cyngor ar ddeddfwriaeth arfaethedig ac ar bob mater sy'n ymwneud â diogelwch a safonau bwyd i'r Gweinidog dros lechyd a Gofal Cymunedol yng Ngweithrediaeth yr Alban. Mae hyn yn sicrhau y ceir ymagwedd gyson ac yn caniatáu i amgylchiadau penodol yr Alban gael eu hystyried yn llawn wrth weithredu polisi o ran diogelwch a safonau bwyd yn yr Alban. Mae Pwyllgor Cynghori statudol yr Alban ar Fwyd (SFAC) yn rhoi gwybodaeth a chyngor annibynnol i'r FSA ar bob mater o ran diogelwch a safonau bwyd yn yr Alban. Ariennir yr FSA yn yr Alban gan Senedd yr Alban ac mae o dan arweiniad Cyfarwyddwr sy'n atebol i Brif Weithredwr yr FSA.
- 9 Mae'r FSA yn atebol am ei gweithgareddau yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Weinidog y Cynulliad dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r FSA hefyd yn rhoi cyngor i'r Gweinidog hwnnw ar bolisi a deddfwriaeth diogelwch a safonau bwyd. Mae Pwyllgor Cynghori statudol Cymru ar Fwyd yn rhoi gwybodaeth a chyngor annibynnol i'r FSA ar bob mater o ran diogelwch a safonau bwyd yng Nghymru. Ariennir yr FSA yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae o dan arweiniad Cyfarwyddwr sy'n atebol i Brif Weithredwr yr FSA.
- 10 Mae'r FSA yng Ngogledd Iwerddon yn gyfrifol am roi cyngor a deddfwriaeth ddrafft ar faterion o ran y gadwyn fwyd gyfan i'r Gweinidog yng Ngogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am y DHSSPS. Mae Pwyllgor Cynghori statudol Gogledd Iwerddon ar Fwyd yn rhoi cyngor neu wybodaeth i'r FSA ynghylch materion sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r FSA yng Ngogledd Iwerddon. Ariennir yr FSA yng Ngogledd Iwerddon o fewn amcangyfrifon Gogledd Iwerddon ac mae o dan arweiniad Cyfarwyddwr sy'n atebol i Brif Weithredwr yr FSA.
- 11 Mae'r FSA yng Ngogledd Iwerddon wedi meithrin sawl cyswllt gyda sefydliadau rhyngwladol eraill â chanddynt ddiddordeb mewn diogelwch a safonau bwyd. Mae'r FSA yng Ngogledd Iwerddon yn cydweithio'n agos â'r Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd (FSPB), sy'n gweithredu ar draws Iwerddon gyfan, ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon, sy'n gweithredu yng Ngweriniaeth Iwerddon yn unig, mewn perthynas â bwyd neu faterion sy'n gysylltiedig â bwyd. Rydym hefyd wedi datblygu cysylltiadau agos gydag Awdurdod Bwyd De Cymru Newydd, ac

mae uwch aelod personél o'r sefydliad hwnnw wedi ymweld ag FSA Gogledd Iwerddon ar ddau achlysur gwahanol. Mae hyn wedi arwain at rannu gwybodaeth a dealltwriaeth well o arferion diogelwch a safonau bwyd ar lefel ryngwladol.

Safonau gwin

- 12** Ein nod yw sicrhau y caiff rheoliadau gwin yr UE eu gorfodi yn y DU. Rydym hefyd yn cynnal Cofrestr Gwinllannau'r DU. Mae ein cyfrifoldebau gorfodi yn berthnasol i bob safle a masnachwr yn y gadwyn cynhyrchu a marchnata, yn cynnwys cyfanwerthwyr, warysau a gwinllannau. Daw safleoedd manwerthu o dan reolaeth safonau masnachu awdurdodau lleol (gweler www.lacors.gov.uk), yn ogystal â gofynion cyfraith trwyddedu o 2005 (ceir rhagor o fanylion ar drwydded ar wefan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn www.culture.gov.uk). Mae Cofrestr Gwinllannau'r DU yn cofnodi'r arwynebedd a gwmpesir gan winllannau a'r cynhaeaf blyneddol ac elw'r cynnyrch gan dyfwyr a chynhyrchwyr.
- 13** Ein hamcanion yw:
- annog tyfwyr a masnachwyr i gydymffurfio â chyfreithiau ar win drwy gynnig cyngor ac addysg
 - cynnal rhaglen o arolygiadau, gan ddefnyddio dadansoddiadau risg i ddarparu gwasanaeth cost effeithiol wedi'i dargedu
 - nodi achosion o dorri'r gyfraith a chasglu tystiolaeth ar gyfer cymryd camau cyfreithiol mewn achosion difrifol
 - gweithio'n agos gyda chyrff rheoleiddio eraill
- 14** Gallwch gael mwy o wybodaeth am y maes hwn o waith ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/foodindustry/winestandards/

Y Gwasanaeth Hyllendid Cig (MHS)

- 15** Mae'r MHS yn un o asiantaethau gweithredol yr FSA sy'n gweithredu ym Mhrydain Fawr (mae DARD yn darparu gwasanaeth tebyg yng Ngogledd Iwerddon). Mae'r MHS yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cynhyrchu cig ffres hylan a bod y risgiau i iechyd a lles anifeiliaid yn cael eu rheoli. Cyflawnir hyn drwy ddilysu ac archwilio cynllun rheoli diogelwch bwyd y gweithredwr busnes bwyd, archwilio cig, a gwaith gorfodi teg, cyson ac effeithiol lle y bo'n briodol. Mae'r rhain yn cwmpasu lladd-dai cymeradwy, gweithfeydd torri cig, cyfleusterau ar gyfer anifeiliaid wedi'u ffermio ac anifeiliaid hela gwyllt, a safleoedd briwgig a chynhyrchion cig a gydleolir. Mae'r MHS hefyd yn gorfodi'r Rheoliadau sy'n ymwneud ag Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol a mathau eraill o Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy, a sgil-gynhyrchion anifeiliaid, mewn safleoedd a gymeradwywyd. Mae gan yr MHS ei Swyddog Cyfrifyddu Asiantaeth ei hun (Prif Weithredwr yr MHS) ac mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon ei hun. Gellir gweld copïau ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/enforcement/meathygienservice. Ceir mwy o wybodaeth am gamau gorfodi'r MHS yn atodiad 7 yr adroddiad hwn.
- 16** Mae'r MHS yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cynhyrchu cig ffres hylan a bod y risgiau i iechyd a lles anifeiliaid yn cael eu rheoli. Cyflawnir hyn drwy ddilysu ac archwilio cynllun rheoli diogelwch bwyd y

gweithredwr busnes bwyd, archwilio cig, a gwaith gorfodi teg, cyson ac effeithiol lle y bo'n briodol. Yng Ngogledd Iwerddon, cyflawnir y rôl hon o ran iechyd y cyhoedd, mewn perthynas â thua 60 o safleoedd cig ffres trwyddedig, gan DARD ar ran yr FSA.

- 17 Gan mai ni yw'r Awdurdod Cymwys Canolog sy'n gyfrifol am reoliadau swyddogol mewn sefydliadau cig a gymeradwywyd, rydym yn cynnal gwaith archwilio i roi sicrwydd bod y rheolaethau hyn yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn unol â gofynion yr UE. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd adolygiad llawn o'r trefniadau archwilio. Cyflwynir cynllun archwilio diwygiedig ar gyfer y flwyddyn 2007/08 sy'n cyflwyno ffordd o feddwl ac asesu sy'n seiliedig ar risg ar gyfer strwythurau'r MHS sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni rheolaethau, yn ogystal â gwiriadau realiti ar waith timau'r MHS mewn sefydliadau a gymeradwyir.

Gorfodi cyfraith bwyd: Yr Arolygiaeth Hylendid Llaeth (DHI)

- 18 Nod y DHI yw diogelu'r cyflenwad llaeth yng Nghymru a Lloegr drwy sicrhau y cynhelir safon foddhaol o hylendid ar ffermydd godro. Mae'r DHI yn gweithredu ar ran yr FSA drwy fonitro a sicrhau bod daliadau cynhyrchu llaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd a bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gorfodi. Yn ystod 2006/07 cynhaliodd y DHI tua 14,000 o arolygiadau. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r arolygiaeth sy'n cyfateb i'r DHI yn rhan o Gangen Sicrhau Ansawdd DARD ac yn yr Alban mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am arolygiadau.

Ein rôl fel adran o'r llywodraeth

- 19 Rydym yn gweithio'n unol â thri nod moderneiddio'r llywodraeth: sicrhau bod y broses o lunio polisi yn fwy cydgysylltiedig a strategol; sicrhau mai defnyddwyr yw ffocws ein gwaith; a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon o safon. Rydym yn ymrwymedig i gyflwyno canlyniadau polisi sy'n gwneud gwahaniaeth: ein nod yw datblygu ein proses llunio polisi er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried ac yn hyrwyddo arferion gorau.
- 20 Ar ein gwefan rydym yn cyhoeddi targedau ar gyfer ein safonau gwasanaeth, sydd yn cyd-fynd â Chwe Safon Llywodraeth Ganolog ar gyfer: ateb gohebiaeth, gweld pobl sy'n galw, ateb galwadau ffôn, cyhoeddi pwyntiau cyswllt, cyhoeddi ein gweithdrefn gwyno ac ymgynghori â defnyddwyr. Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi manylion y cwynion a dderbynnir gan yr FSA: mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad 6 o'r adroddiad hwn.
- 21 Rydym yn ymrwymedig i wneud popeth posibl o fewn rheswm i sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i bawb, gan gynnwys pobl ag anableddau, grwpiau ethnig, grwpiau difreintiedig a'r rhai ag anghenion iechyd penodol, ac yn arbennig er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Byddwn yn parhau i ymgynghori â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn rheolaidd ynghylch y gwasanaethau a ddarparwn a byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar ein canfyddiadau.
- 22 Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ym Mhrydain Fawr. O dan y ddyletswydd hon, pan fyddant yn cyflawni eu

swyddogaethau, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio: dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil; hyrwyddo cyfle cyfartal; a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hil gwahanol. Tra bod ein gwerthoedd craidd o roi'r defnyddiwr yn gyntaf a bod yn agored yn gysylltiedig â'r egwyddorion hyn yn y bôn, yn unol â'r ddyletswydd benodol sydd ar awdurdodau cyhoeddus rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/aboutus/how_we_work/68192

- 23 Ar hyn o bryd, mae'r FSA yn llwyr gyfrifol am bum corff cyhoeddus, y mae pob un ohonynt yn bwylgorau cynghori. Yn ogystal, mae pum pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau i'r FSA ac un neu fwy o adrannau eraill y llywodraeth. Mae Adroddiad Penodi Blynnyddol yr FSA ar gael ar ein gwefan yn www.food.gov.uk
- 24 Rydym yn gweithio gyda'n hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) sydd â chylch gwaith ar gyfer Prydain Fawr, a chyda'r Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD) yng Ngogledd Iwerddon, a chydag awdurdodau lleol ac adrannau eraill y llywodraeth ar draws y DU i sicrhau bod rheoliadau ar ddiogelwch a safonau bwyd yn cael eu gorfodi er mwyn diogelu defnyddwyr.
- 25 Rydym yn monitro perfformiad awdurdodau lleol drwy ein cynllun archwilio. Gweithredir y cynllun ledled y DU, gyda'r FSA yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gyd yn cydlynu eu rhaglenni archwilio eu hunain.

Datblygu ein pobl

- 26 Drwy ein pobl, a'r wybodaeth a'r sgiliau sydd ganddynt, y gallwn gyflawni ein nodau a'n hamcanion allweddol. Mae eu datblygiad, yn unol â'n gwerthoedd craidd ac egwyddorion Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP), yn hanfodol i'n llwyddiant a byddwn yn parhau i ddatblygu'r sefydliad drwy gynyddu ei allu i gyflawni.
- 27 Cawsom ein hachredu'n Fuddsoddwr mewn Pobl ym mis Ebrill 2004. Nododd ein harolwg o agweddau staff a gynhaliwyd yn 2006 bod staff yn parhau i werthfawrogi'r buddsoddiad a wneir tuag at eu datblygiad. Dangosodd ein hasesiad anffurfiol yn erbyn y safon BmP newydd ym mis Tachwedd 2006 ein bod wedi gwneud cynnydd da ar y ffordd i gael ailasesiad llawn yn erbyn y safon, a gynhelir ym mis Tachwedd 2007.
- 28 Ar hyn o bryd rydym yn darparu cyfleoedd dysgu wedi'u teilwra drwy ein rhaglen dysgu a datblygu gynhwysfawr. Rydym wedi datblygu'r rhaglen ymhellach i gefnogi'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein Cynllun Strategol yn llwyddiannus yn dilyn dadansoddiad pwysig o anghenion o ran sgiliau. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau i ddatblygu sgiliau arwain ymhellach yn ogystal â sgiliau i gynorthwyo'r broses o gyflawni ein Cynllun Strategol drwy weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Cyflwynwyd y rhaglen datblygu fanylach yn ystod 2006. Mae Rhaglen Arweinyddiaeth yr FSA ar gyfer aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil a lansiwyd ym mis Chwefror 2006 wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau arweinyddiaeth ein huwch aelodau o staff a chafodd y broses hon o ddatblygu wedi'i strwythuro ei ehangu i gynnwys rheolwyr canolig yn ystod rhan gyntaf 2007.

Amrywiaeth

- 29** Mae'r FSA yn parhau i sicrhau bod pawb sy'n gweithio i ni, neu sy'n dod i gysylltiad â ni, yn cael eu trin yn deg a chyda pharch. Mae ein polisiau adnoddau dynol yn ategu'r nod hwn ac rydym yn eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth ac arfer gorau. Er enghraifft, cafodd ein fframwaith cymhwysedd ei brawfesur o safbwynt cydraddoldeb a bydd adolygiad a ddechreuwyd yn ddiweddar o'n holl bolisiau yn destun asesiad tebyg.
- 30** Fodd bynnag, rydym bob amser yn edrych am ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o amrywiaeth. Mae ein Fforwm Amrywiaeth a sefydlwyd ar ddiwedd 2005 yn parhau i dyfu a datblygu. Mae cynrychiolwyr o bob rhan o'r FSA ac iddynt agendâu amrywiaeth gwahanol yn cyfarfod yn rheolaidd i nodi, cefnogi a hyrwyddo arfer da o ran cynhwysiant. Mae ein Strategaeth Amrywiaeth yn cynnwys cynlluniau gweithredu sydd â'r nod o gyflawni ein targedau amrywiaeth heriol ar draws y sefydliad a fydd yn helpu i gyflwyno FSA sy'n gynyddol amrywiol.
- 31** Rydym yn parhau i gefnogi Cymdeithas Windsor, elusen addysgol sy'n darparu rhaglenni hyfforddi personol a rheoli i israddedigion dawnus a llwyddiannus o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Yn 2006, noddwyd dau leoliad, ac rydym yn bwriadu parhau â'r gwaith hwn yn 2007.

Recriwtio

- 32** Mae'r FSA yn dilyn egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn ei hymgyrchoedd recriwtio yn unol â gofynion Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. Yn ddiweddar, amlygodd archwiliad gan y Comisiynwyr gryfderau'r FSA o ran darparu disgrifiadau swydd cynhwysfawr sy'n amlinellu'r rhinweddau sy'n ofynnol gan ddarpar ymgeiswyr. Fel y pwysleisiodd y Comisiynwyr, mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn denu'r ymgeiswyr mwyaf addas. Cefnogwyd y gwahanol dechnegau asesu a ddefnyddir gennym hefyd gan y Comisiynwyr, a ymgorfforodd nifer o'n harferion yn eu canllaw arfer da ar recriwtio.
- 33** Rydym yn parhau i sicrhau bod ein harferion recriwtio yn ategu ein polisiau cyfle cyfartal. Mae ein Cynllun Gwarant Cyfweiliad ar gyfer ymgeiswyr ag anableddau yn sicrhau ein bod yn derbyn ceisiadau gan y grwpiau hyn a dangynrychiolir, er enghraifft Prydain Ethnig, ac rydym yn parhau i gynnwys erthyglau yn Hobsons Ethnic Minority ac mewn Canllawiau Gwyddoniaeth.
- 34** Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod angen i ni wneud mwy i sicrhau ein bod yn denu'r ymgeiswyr cywir. Bu ein brand cyflogwyr a ddatblygwyd gyda'n hymgynghorwyr recriwtio, Tribal Resourcing, ac a lansiwyd yn 2006, yn llwyddiannus yn y modd y bu o gymorth i ni wella ansawdd a nifer yr ymgeiswyr.
- 35** Mae'r broses o gyfnewid staff â rhanddeiliaid allweddol wedi parhau, gyda nifer o staff yr FSA yn cael eu secondio i sefydliadau eraill yn ystod y flwyddyn. Mae'r secondiadau wedi cynnwys sefydliadau defnyddwyr, cyrff gorfodi, y Comisiwn Ewropeaidd ym Mrwsel ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop. Mae staff yr FSA hefyd wedi achub ar y cyfle i ymweld ag asiantaethau bwyd eraill, a chwblhau secondiadau am hyd at flwyddyn gyda hwy, er enghraifft yn Seland Newydd, yr

Iseldiroedd ac Awstralia. Mae'r broses gyfnewid hon yn arwain at gyd-ddealltwriaeth yn ogystal â rhoi cyfleoedd datblygu i staff. Ar gyfer y flwyddyn i ddod ein nod yw annog rhagor o bobl i ddod atom ni ar secondïadau a chael mwy o ryngweithio gyda sefydliadau Ewropeaidd sy'n gweithredu yn yr un amgylchedd.

Cyfrifon yr FSA

- 36** Ceir gwybodaeth gryno am sut rydym yn gwario ein harian yn atodiad 4. Cyhoeddir cyfrifon yr FSA ar wahân i'r adroddiad blynyddol. Mae copïau o'r cyfrifon ar gael o'r Llyfrfa, ac maent hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.food.gov.uk

Yr adroddiad hwn

- 37** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg ac asesiad o berfformiad yr FSA a'i gweithgareddau dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ystod yr adroddiad, cyfeirir at gyhoeddiadau a gwefannau lle ceir gwybodaeth fanylach.
- 38** Ceir asesiad ffurfiol o gynnydd yn erbyn targedau olaf ein Cytundeb Darparu Gwasanaeth (SDA), y cytunwyd arnynt gyda Thrysorlys EM fel rhan o'r Adolygiad o Wariant 2002, yn atodiad 5.

Atodiad 2 Ein Bwrdd a'r Prif Weithredwr

Y Prif Weithredwr

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion bywgraffyddol y Prif Weithredwr presennol a phroffiliau o'r Cyfarwyddwyr, ewch i'n gwefan yn www.food.gov.uk/aboutus/



John Harwood
Prif Weithredwr

Y Bwrdd


Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion bywgraffyddol aelodau presennol y Bwrdd a'u cofrestr buddiannau, ar ein gwefan yn www.food.gov.uk/aboutus/ourboard/

Roedd y canlynol yn aelodau o'r Bwrdd yn ystod 2006/07



- 1** Y Fonesig Deirdre Hutton
Cadeirydd
- 2** Dr Ian Reynolds, Is Gadeirydd
(penodwyd yn Is Gadeirydd ar
1 Chwefror 2007)
- 3** Julia Unwin, Is Gadeirydd
(hyd at 31 Rhagfyr 2006)
- 4** Yr Athro Graeme Millar
(Yr Alban/Cadeirydd Pwyllgor
Cyngori ar Fwyd yr Alban)
- 5** John W Spence
(Cymru/Cadeirydd Pwyllgor
Cyngori ar Fwyd Cymru,
o 1 Ebrill 2007)
- 6** Dr Maureen Edmondson
(Gogledd Iwerddon/Cadeirydd
Pwyllgor Cyngori ar
Fwyd Gogledd Iwerddon)
- 7** Richard Ayre
- 8** Tim Bennett (o 1 Mawrth 2007)
- 9** Chrissie Dunn
- 10** Alan Gardner, Aelod Bwrdd ar
gyfer Cymru/Cadeirydd Pwyllgor
Cyngori ar Fwyd Cymru o fis
Chwefror hyd at fis Gorffennaf 2006
- 11** Y Farwnes Valerie Howarth o
Breckland OBE
(hyd at 28 Chwefror 2007)
- 12** Iain MacDonald (hyd at 31 Mai 2006)
- 13** Michael Parker (o 1 Mehefin 2006)
- 14** Chris Pomfret
(roedd hefyd yn Gadeirydd dros
dro ar gyfer Pwyllgor Cyngori ar
Fwyd Cymru o fis Gorffennaf 2006
hyd at fis Mawrth 2007)
- 15** Yr Athro Bill Reilly (yr Alban)
- 16** Nancy Robson (o 1 Mawrth 2007)
- 17** Sandra Walbran
- 18** Nelisha Wickremasinghe
(hyd at 28 Chwefror 2007)

Atodiad 3 Sut yr ydym wedi'n trefnu



Mae rhestr gyswllt fanwl fesul pwnc ar gael yn: www.food.gov.uk/aboutus/contactus

Os na allwch ddod o hyd i'r enw cyswllt sydd ei angen arnoch, ffoniwch ein llinell gymorth ar 020 7276 8829 neu'r switsfwrdd ar 020 7276 8000.

Tabl 1 (parhad)

Gwariant Cyfalaf:	2002-03 Alldro £'000	2003-04 Alldro £'000	2004-05 Alldro £'000	2005-06 Alldro £'000	2006-07 Alldro £'000	2007-08 Cynlluniau £'000	2008-09 Cynlluniau £'000	2009-10 Cynlluniau £'000	2010-11 Cynlluniau £'000
a) gweinyddu, archwilio, goruchwyllo, rheoli ymchwil a datblygu, addysg, cyhoeddusrwydd a chyhoeddiadau	1,158	1,195	430	853	322	322	314	307	299
b) archwiliadau a rheolaethau lladd-dai	359	1,897	469	500	625	325	317	309	301
Cyfanswm cyllideb cyfalaf	1,517	3,092	899	1,353	947	647	631	616	601
sy'n cynnwys:									
Cyfalaf TGA ⁽¹⁾	1,517	3,092	899	1,353	947	647	631	616	601
Cyfanswm gwariant cyhoeddus⁽³⁾	120,043	124,907	133,558	133,784	142,843	142,535	139,064	135,678	132,374

(1) Terfynau Gwariant Adrannol, sef rhan o Adolygiad o Wariant 2006

(2) sy'n cynnwys adnoddau asedau hylifol TGA

(3) Cyfanswm gwariant cyhoeddus fel cyfanswm o'r gyllideb adnoddau a'r gyllideb gyfalaf, llai dibrisiant

Tabl 2 – Cyllideb Adnoddau Adrannol

Mae'r tabl hwn yn dangos dadansoddiad o'r gwariant adnoddau rhwng yr MHS a Phencadlys yr FSA, a'r hyn y gwariwyd yr arian arno.

Defnydd o adnoddau yn ôl gweithgaredd:	2002-03 Alldro £'000	2003-04 Alldro £'000	2004-05 Alldro £'000	2005-06 Alldro £'000	2006-07 Alldro £'000	2007-08 Cynlluniau £'000	2008-09 Cynlluniau £'000	2009-10 Cynlluniau £'000	2010-11 Cynlluniau £'000
a) gweinyddu, archwilio, goruchwyllo, rheoli ymchwil a datblygu, addysg, cyhoeddusrwydd a chyhoeddiadau	94,982	99,165	105,278	102,440	109,700	110,792	106,240	103,654	101,130
b) archwiliadau a rheolaethau lladd-dai	25,054	24,442	29,847	31,606	34,200	33,100	34,148	33,316	32,505
Cyfanswm Cyllideb Adnoddau	120,036	123,607	135,125	134,046	143,900	143,892	140,388	136,970	133,635
sy'n cynnwys: Adnoddau TGA ^(1,2)	120,036	123,607	135,125	134,046	143,900	143,892	143,892	143,892	143,892

(1) Terfynau Gwariant Adrannol, sef rhan o Adolygiad o Wariant 2006

(2) sy'n cynnwys adnoddau asedau hylifol TGA

Tabl 3 – Cyllideb Cyfalaf Adrannol

Mae'r tabl hwn yn rhoi dadansoddiad o gynlluniau buddsoddi neu wariant cyfalaf rhwng yr MHS a Phencadlys yr FSA.

Gwariant Cyfalaf	2002-03 Alldro £'000	2003-04 Alldro £'000	2004-05 Alldro £'000	2005-06 Alldro £'000	2006-07 Alldro £'000	2007-08 Cynlluniau £'000	2008-09 Cynlluniau £'000	2009-10 Cynlluniau £'000	2010-11 Cynlluniau £'000
a) gweinyddu, archwilio, goruchwyllo, rheoli ymchwil a datblygu, addysg, cyhoeddusrwydd a chyhoeddiadau	625	1,195	430	1,097	322	322	314	307	299
b) archiliadau a rheolaethau lladd-dai	282	1,897	469	500	625	325	317	309	301
Cyfanswm Cyllideb Cyfalaf	907	3,092	899	1,597	947	647	631	616	601
sy'n cynnwys: Cyfalaf TGA ^(1,2)	907	3,092	899	1,597	947	647	631	616	601

(1) Terfynau Gwariant Adrannol, sef rhan o Adolygiad o Wariant 2006

Tabl 4 – Cyfalaf a Ddefnyddiwyd

Mae cyfrifyddu a chyllidebu ar sail adnoddau (RAB) yn rhoi darlun llawer cliriach o'r asedau cyfalaf a ddefnyddir gan adran. Caiff ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cyfrifo cost taliadau cyfalaf a delir gan adrannau i adlewyrchu'r costau ariannol sy'n gysylltiedig â dal yr asedau. Mae'r tabl hwn yn nodi cyfanswm y cyfalaf a ddefnyddiwyd gan yr adran o fewn y ffin cyfrifyddu, a chan ei chyrrff noddi y tu allan i'r ffin.

	2002-03 Alldro £'000	2003-04 Alldro £'000	2004-05 Alldro £'000	2005-06 Alldro £'000	2006-07 Alldro £'000	2007-08 Cynlluniau £'000	2008-09 Cynlluniau £'000	2009-10 Cynlluniau £'000	2010-11 Cynlluniau £'000
Cronfa Gyffredinol	(9,737)	(8,748)	(66,464)	(43,063)	(43,063)	(43,063)	(43,063)	(43,063)	(43,063)
Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn	569	545	363	363	363	363	363	363	363
Cyfanswm Cyllideb Adnoddau	(3,111)	(9,168)	66,101	(42,647)	(42,700)	(42,700)	(42,700)	(42,700)	(42,700)

Tabl 5 – Dadansoddiad o'r Costau Gweinyddol

Mae'r tabl hwn yn dangos dadansoddiad o'r costau gweinyddol.

	2002-03 Alldro £'000	2003-04 Alldro £'000	2004-05 Alldro £'000	2005-06 Alldro £'000	2006-07 Alldro £'000	2007-08 Cynlluniau £'000	2008-09 Cynlluniau £'000	2009-10 Cynlluniau £'000	2010-11 Cynlluniau £'000
Costau Gweinyddol Gros:									
Bil Cyflog:	21,422	22,898	24,578	27,556	28,576	28,576	27,880	27,202	26,539
Arall	22,725	23,503	34,566	29,887	44,315	46,687	45,550	44,442	43,360
Cyfanswm Costau Gweinyddol Gros	44,147	46,401	59,144	57,443	72,891	75,263	73,431	71,643	69,899
Derbyniadau cost gweinyddol cysylltiedig	(11,084)	(8,101)	(14,027)	(13,224)	(21,568)	(22,848)	(22,292)	(21,749)	(21,220)
Cyfanswm costau gweinyddol net	33,063	38,300	45,117	44,219	51,323	52,415	51,139	49,894	48,679
sy'n cynnwys:									
Terfyn gwariant adrannol (DEL)	33,063	38,300	45,117	44,219	51,323	52,415	51,139	49,894	48,679
Gwariant wedi'i Reoli'n Flynyddol nad yw'n arian parod	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm costau gweinyddol net yn ôl gweithgaredd:									
a) gweinyddu, archwilio, goruchwyllo, rheoli ymchwil a datblygu, addysg, cyhoeddusrwydd a chyhoeddiadau	33,063	38,300	45,117	44,219	51,323	52,415	51,139	49,894	48,679
Cyfanswm Costau Gweinyddol	33,063	38,300	45,117	44,219	51,323	52,415	51,139	49,894	48,679

Tabl 6 – Niferoedd Staff

Mae'r tabl hwn yn dangos dadansoddiad o nifer y staff, gan gynnwys y Gwasanaeth Hylendid Cig, o ran nifer y staff sy'n cyfateb i weithwyr llawn amser (FTE) y Gwasanaeth Sifil.

	2002-03 Gwirioneddol £'000	2003-04 Gwirioneddol £'000	2004-05 Gwirioneddol £'000	2005-06 Gwirioneddol £'000	2006-07 Gwirioneddol £'000	2007-08 Cynlluniau £'000	2008-09 Cynlluniau £'000	2009-10 Cynlluniau £'000	2010-11 Cynlluniau £'000
CS FTEs	2,175	2,207	2,258	2,175	2,175	2,175	2,175	2,175	2,175
Goramser	234	178	157	166	166	166	166	166	166
Staff achlysurol	51	32	38	32	32	32	32	32	32
Cyfanswm	2,460	2,417	2,453	2,373	2,373	2,373	2,373	2,373	2,373

Atodiad 5 Cynnydd yn erbyn ein Cytundeb Darparu Gwasanaeth

Nod: Gwell Diogelwch a Safonau Bwyd

Canlyniad allweddol	Mesur perfformiad	Cyflawni (prif dargedau gweithredol)	Asesiad	Cynnydd
Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% erbyn diwedd cyfnod yr Adolygiad Strategol	Cyhoeddwyd lefelau blynyddol salwch a gludir gan fwyd yn seiliedig ar adroddiadau labordy mewn perthynas â'r pum prif facteria a gludir gan fwyd, heb gynnwys achosion a gododd dramor	Mae ein strategaeth clefydau a gludir gan fwyd a'r cynllun gweithredu ategol a gyhoeddwyd yn nodi manylion ynglŷn â sut y byddwn yn cyflawni ein targed cyffredinol. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau cynnydd bob chwe mis yn erbyn y cynllun.	Cyflawnwyd	Ar ddiwedd cyfnod yr Adolygiad o Wariant ac yn seiliedig ar ddata dros dro ar gyfer 2005, roedd y lleihad mewn salwch a gludir gan fwyd fel y'i monitrowyd gan adroddiadau labordai o salwch o ganlyniad i'r pum prif facteria a gludir gan fwyd yn 19.2%. Rydym yn parhau i weithredu strategaethau i sicrhau lleihad pellach mewn clefydau a gludir gan fwyd.

Atodiad 6 Cwynion a gyflwynwyd i'r FSA

- 1 Mae gweithdrefn gwyno'r FSA yn cwmpasu unrhyw fynegiant ysgrifenedig neu lafar o anfodddhad gyda'r gwasanaeth a ddarparwn i'n cwsmeriaid. Nid oes rhaid i'r rhain fod yn gwynion 'ffurfiol'. Yn gyffredinol byddant yn achosion lle y teimlir bod yr FSA wedi methu'n weinyddol neu wedi cymryd camau amhriodol. Nid yw'r broses gwyno yn cwmpasu anghydfodau dros faterion polisi.
- 2 Cyhoeddir y weithdrefn gwyno ar wefan yr FSA www.food.gov.uk/aboutus/how_we_work/fsacomplaintsprocedure. I ddechrau, anogir achwynyddion i gysylltu â'r person y maent wedi bod yn delio â hwy yn yr FSA. Os byddant yn anfodlon o hyd, yna gwahoddir achwynyddion i gyflwyno cwyn i Gydlynnydd Cwynion yr FSA. Os na ellir datrys y broblem ar yr adeg hon, gall yr achwynydd ofyn i'w cwyn gael ei chyfeirio at y Prif Weithredwr. Os byddant yn anfodlon o hyd ar ôl i'r Prif Weithredwr ymchwilio ac ateb, gall yr achwynydd ofyn i unrhyw AS gyfeirio'r mater i Gomisiynydd Seneddol y DU i'w gweinyddu (yr Ombwdsmon).
- 3 Cyfanswm nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2005/06 oedd 16. Mae hyn yn debyg i'r niferoedd a gafwyd yn y gorffennol. Mae'r nifer wedi amrywio rhwng 12 a 19 y flwyddyn ers 2000/01, ac eithrio 2004/05 pan wnaed 54 o gwynion, y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â Sudan 1. O'r rhai a gafwyd yn 2005/06, datryswyd 12 yn fewnol gan Adrannau, deliodd Cydlynnydd Cwynion yr FSA â thair ohonynt, a deliodd y Cadeirydd Gweithredol ag un ohonynt. Ni chyfeiriwyd unrhyw gŵ yn i'r Ombwdsmon. Daeth yr 16 o gwynion o amrywiaeth o ffynonellau. Cafwyd tair gan awdurdodau lleol, dwy o'r cyfryngau ac 11 gan aelodau o'r cyhoedd.
- 4 Caiff yr 16 o gwynion a gofnodwyd eu categorioedd ar yr un sail ag ar gyfer blynnyddoedd blaenorol⁸:

Categori	Diffiniad	Nifer	Datrysiad
A	Dim bai, lle nad oedd sail i'r gŵ yn	8	Datryswyd pob un ar ôl gohebu â'r achwynyddion
B	Mân gamgymeriadau ac oedi wrth brosesu	3	Datryswyd pob un ar ôl rhoi eglurhad
C	Materion cymhleth a newydd, a achosodd oedi neu broblem arall	2	Datryswyd pob un ar ôl rhoi eglurhad
D	Cwynion a wneir mewn perthynas â materion amrywiaeth	0	
E	Arall, fel camau amhriodol neu annigonol a gymerwyd gan yr FSA	3	Datryswyd pob un ar ôl i swyddogion roi eglurhad
Cyfanswm		16	

⁸ Nid yw'r categorïau'n cynnwys ceisiadau am adolygiadau mewnol o benderfyniadau a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FoIA) na'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR).

- 5 Bob blwyddyn, dadansoddir y cwynion i weld a ydynt yn dangos gwendidau posibl ym mhrosesau mewnol yr FSA. O'r rhai a gafwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r materion canlynol wedi codi:
- daeth y gŵ yn y deliodd y Cadeirydd Gweithredol â hi gan awdurdod lleol a gredai fod dau uwch aelod o staff wedi gwneud penderfyniad annheg i gynnal archwiliad llawn o'i wasanaeth bwyd. Daeth y Cadeirydd Gweithredol i'r casgliad nad oedd sail i'r gŵ yn, ond ar yr un pryd datgelodd rai bylchau ym mhroses yr FSA o ddelio â chwynion
 - yn ystod y ddwy flwyddyn gofnodi ddiwethaf (2004/05 a 2005/06) cafwyd un gŵ yn bob blwyddyn bod gohebiaeth a oedd wedi'i chyfeirio at yr 'Asiantaeth Safonau Bwyd' heb ei hateb (cafwyd un hyd yma yn ystod 2006/07 hefyd). Wrth ymchwilio i'r cwynion nid oedd yn bosibl cadarnhau a dderbyniodd yr FSA y llythyrau, neu a oedd bai ar y drefn fewnol. Mae gohebiaeth o'r fath bellach yn cael ei chofnodi ar gronfa ddata ganolog a fydd yn ein galluogi i'w holrhain yn well
- 6 Er nad yw'n gŵ yn a wnaed eleni, mae'n werth nodi casgliad ymchwiliad Ombwdsmon i gŵ yn a wnaed yn 2004. Honnodd cwmni fod yr FSA wedi dosbarthu ei welyau cregynbysgod yn anghywir. Yn ei hadroddiad nododd yr Ombwdsmon nad oedd wedi canfod tystiolaeth a oedd yn dangos bod bai gweinyddol ar yr FSA, ac ni chadarnhaodd y gŵ yn.
- 7 Cyhoeddir papur y Bwrdd sy'n amlinellu'r cwynion a wnaed a'r camau a gymerwyd yn 2006/07 ar ein gwefan www.food.gov.uk yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2007.

Atodiad 7 Gwaith gorfodi'r Gwasanaeth Hylendid Cig

Tîm Arolygu'r MHS

- 1 Mae'r MHS yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cynhyrchu cig ffres hylan a bod y risgiau i iechyd a lles anifeiliaid yn cael eu rheoli. Cyflawnir hyn drwy ddilysu ac archwilio cynllun rheoli diogelwch bwyd y Gweithredwr Busnes Bwyd, yn seiliedig ar system HACCP (Asesu Hylendid a Phwyntiau Rheoli Critigol); archwilio cig, ac ymgymryd â gwaith gorfodi teg, cyson ac effeithiol lle y bo'n briodol. Mae'r MHS yn ymwneud â lladd-dai cymeradwy, gweithfeydd torri cig, cyfleusterau ar gyfer anifeiliaid wedi'u ffermio ac anifeiliaid hela gwyllt, a safleoedd briwgig a chynhyrchion cig a gydleolir. Mae'r MHS hefyd yn gorfodi'r rheoliadau sy'n ymwneud ag Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol a mathau eraill o Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy, a sgil-gynhyrchion anifeiliaid, mewn safleoedd cymeradwy. Mae gweithlu gweithredol yr MHS yn cynnwys tua 1,450 o staff llawn amser, achlysurol ac wedi'u contractio mewn timau archwilio cig a leolir mewn safleoedd cig ffres cymeradwy ledled Prydain. Yn ogystal, mae'r MHS yn cyflogi tua 200 o staff gweinyddol a rheolwyr yn ei bencadlys yng Nghaerefrog a'i bum swyddfa ranbarthol yng Nghaerefrog, Caeredin, Wolverhampton, Caerdydd a Taunton. Mae cymhwysu'r marc iechyd yn cadarnhau bod cig coch a chig anifeiliaid hela gwyllt wedi'u cynhyrchu yn unol â'r rheoliadau, ac o dan oruchwyliaeth Milfeddyg Swydddogol.

Polisi gorfodi'r MHS

- 2 Mae polisi gorfodi'r MHS yn amlinellu prif swyddogaethau'r MHS, yr egwyddorion gorfodi y mae'r MHS wedi cytuno i'w mabwysiadu a'r safonau a gymhwysir wrth gyflawni gwaith gorfodi. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod unrhyw gamau ffurfiol y mae'r MHS yn eu cymryd yn rhesymol, yn gyson ac yn gymesur â'r risg a berir i iechyd y cyhoedd a lles anifeiliaid. Gellir darllen y polisi gorfodi a gyhoeddwyd yn www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/mhsenforcementpolicy.pdf
- 3 Gall y rhai sy'n gweithio i'r MHS siarad â staff cynhyrchu mewn gweithfeydd, ond byddant hefyd yn hysbysu rheolwyr safleoedd trwyddedig o ddiffygion mawr. Mae cyngor/rhybuddion ysgrifenedig yn briodol lle y ceir mân achos o dorri'r rheoliadau nad yw'n cael effaith uniongyrchol ar iechyd y cyhoedd nac ar les anifeiliaid, neu os nad yw'r deiliaid yn dilyn cyngor llafar blaenorol. Os na ddilynrir y cyngor anffurfiol, gall y Milfeddyg Swydddogol weithredu camau gorfodi ffurfiol drwy'r hierarchaeth orfodi.

Camau Gorfodi Ffurfiol

- 4 Gellir cyflwyno hysbysiadau statudol oherwydd diffygion mewn hylendid, materion strwythurol anfodddhaol, i roi'r gorau i'r defnydd o fathau penodol o offer, i osod amodau ar y broses cynhyrchu cig, i gau'r busnes yn llwyr, neu i roi'r gorau i arfer penodol sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau hylendid

y ddeddfwriaeth. Mae'n rhaid i hysbysiadau statudol adlewyrchu'r diffyg cydymffurfiaeth, cyfeirio'n gywir at y ddeddfwriaeth berthnasol, a bod yn glir ac yn haws i'w deall er mwyn iddynt fod yn ddilys yn gyfreithiol.

Camau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol a gymerwyd gan yr MHS yn ystod 2006/07

- 5 Ni wnaeth y broses o weithredu rheoliadau'r UE ar hylendid bwyd o 1 Ionawr 2006 effeithio ar y rhesymau dros gymryd camau gorfodi, ond arweiniodd at newid o ran cynllun yr hysbysiadau ffurfiol y gellir eu rhoi, a'u teitlau.

Camau Ffurfiol	Nifer yr Hysbysiadau, 1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth 2007
Hysbysiad Gwahardd Argyfwng Hylendid, a gyflwynir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Lloegr) (yr Alban) 2006, sy'n rhoi diwrnod o rybudd i weithredwr o'r bwriad i wneud cais i lys i gyflwyno Gorchymyn Gwahardd Argyfwng Hylendid	Dim
Hysbysiad Gwella Hylendid a gyflwynir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Lloegr) (yr Alban) 2006	777
Hysbysiad Camau Cywirol a gyflwynir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Lloegr) (yr Alban) 2006	346

Camau Anffurfiol	Nifer yr Hysbysiadau, 1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth 2007
Rhybudd ysgrifenedig	6,637

Ffynhonnell: Cyfarwyddiaeth Milfeddygol a Thechnegol yr MHS

Erlyniadau

- 6 Yn gyfreithiol, caiff achosion eu herlyn gan yr awdurdod gorfodi perthnasol. Yn ymarferol, yng Nghymru a Lloegr, caiff achos ei erlyn gan yr FSA yn dilyn argymhelliad gan yr MHS, ar gyfer pob achos ac eithrio achosion sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, adnabod gwartheg a rhai troseddau sy'n gysylltiedig â sgil-gynnyrch anifeiliaid a TSE, lle bydd Defra yn erlyn. Yn yr Alban, y Procuradur Ffisgal yw'r erlynydd.
- 7 Dim ond pan fydd cynrychioliadau llafar wedi'u gwneud i reolwyr y gwaith y caiff achos ei erlyn. Fel arfer – ond dim bob tro – bydd dulliau eraill o orfodi (fel cyngor/rhybuddion ysgrifenedig a/neu hysbysiadau statudol) wedi'u gweithredu heb lwyddiant cyn y gwneir argymhelliad i erlyn gan y Milfeddyg Swyddogol.
- 8 Mae'r argymhellion hynny yn destun proses rheoli ansawdd gadarn, a weithredir gan y Cynghorydd Milfeddygol Rhanbarthol, y Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Cangen Ymchwiliadau'r FSA, Adran Gyfreithiol yr FSA a - lle y bo'n briodol – cyfreithwyr Defra. Y cyfreithwyr erlyn sy'n gweithredu ar ran yr FSA neu Defra sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol i erlyn, yn unol â Chod Erlynwyr y Goron, gan ystyried unrhyw argymhelliad gan yr MHS. Mae cyfreithwyr yr FSA yn ystyried Polisi Gorfodi'r MHS.
- 9 Yn yr Alban, y Procuradur Ffisgal sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad i erlyn. Bydd yn ystyried achosion y mae Adran Gyfreithiol yr FSA yn ei hysbysu ohonynt ar sail argymhellion gan yr MHS, yn unol â'r Cod Erlyn a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Ffisgal.
- 10 Mewn rhai amgylchiadau, bydd rhybuddion (neu, yn yr Alban, rhybudd ffurfiol) yn briodol – er enghraifft, pan fo meini prawf yr erlyniad wedi'u nodi, ond gwnaethpwyd cyfaddefiadau; nid oes gan y diffynnydd hanes o drosedd; mae'r drosedd yn llai difrifol, a cheir tystiolaeth o edifeirwch.
- 11 Yn 2006/07, cynhaliodd Cangen Ymchwiliadau'r FSA ymchwiliadau i 300 o achosion a gyfeiriwyd gan yr MHS ar gyfer erlyniadau posibl. Mae'r dadansoddiad o'r achosion hyn fel a ganlyn:

Nifer yr achosion a gyfeiriwyd gan yr MHS ar gyfer erlyniad posibl, 2006/07

Deddfwriaeth	Nifer yr achosion a gyfeiriwyd
Hylendid/diogelwch bwyd	110
Enseffalopathiau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSEs)	72
Lles anifeiliaid	71
Isgynhyrchion anifeiliaid	28
Adnabod gwartheg	19
Cyfanswm	300

Ffynhonnell: Gwasanaethau Cyfreithiol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Achosion a gyfeiriwyd at erlynwyr, a chanlyniadau'r achosion a gyfeiriwyd, 2006/07

Corff erlyn	Cyfanswm yr achosion a gyfeiriwyd	Collfarnau	Rhybuddion swyddogol/ llythyrau rhybuddio	Achosion a gyfeiriwyd yn y llys	Achosion a gyfeiriwyd ac a dynnwyd yn ôl	Yn cael eu hadolygu gan erlynwyr	Dim camau pellach ar ôl yr adolygiad
Yr Adran Iechyd/ Adran Gwaith a Phensiynau (ar ran yr FSA)	76	12	5	38	6	8	7
Defra	87	3	21	33	7	7	16
Procuradur Ffisgal (yr Alban yn unig)	29	6		8	4	5	6

Ffynhonnell: Gwasanaethau Cyfreithiol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd

- 12
- Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caiff achos ei gyfeirio, yr ymchwilir iddo ac a gaiff ei erlyn o fewn yr un cyfnod o 12 mis. Fodd bynnag, yn ystod 2006/07, gwnaed cyfanswm o 206 o gyhuddiadau ar draws 39 o achosion. Yn y pen draw, arweiniodd 31 o'r 39 o achosion at gollfarn. Arweiniodd dau achos at ryddfarn a thynnwyd y saith achos arall yn ôl.

Atodiad 8 Rhestr termau

AFAL	Gwobrau am Fentrau Bwyd Lleol
BSE	Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol
CE	Y Comisiwn Ewropeaidd
DARD	Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
DfES	Adran Addysg a Sgiliau
DHSSPS	Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd
EFSA	Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop
FSA	Asiantaeth Safonau Bwyd
FSPB	Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd yn Iwerddon
FTEs	Staff sy'n Gyfwerth ag Amser Llawn y Gwasanaeth Sifil
GM	Wedi'i Addasu'n Enetig
HACCP	Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd wedi'i dogfennu a gaiff ei hystyried yn gyffredinol fel y ffordd fwyaf effeithiol o reoli peryglon yn y broses trin a chynhyrchu bwyd. Ymagwedd strwythuredig ydyw yn seiliedig ar saith egwyddor y gellir eu cymhwyso'n hyblyg mewn busnesau bwyd o bob maint er mwyn sicrhau bod rheolaethau cymesur yn seiliedig ar risgiau ar waith ac er mwyn sicrhau y caiff bwyd diogel ei gynhyrchu.
LACORS	Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol
LTC	Dosbarthiad hirdymor
MHS	Y Gwasanaeth Hylendid Cig
NCP	Cynllun Rheoli Cenedlaethol
NI	Gogledd Iwerddon
NSSG	Grŵp Llywio Strategaeth Maeth
Ofcom	Swyddfa Gyfathrebu
NSSG	Nutrition Strategy Steering Group
Ofcom	Office of Communications
OTM	Dros dri deg mis oed
OV	Milfeddyg Swyddogol (MHS)
SACN	Pwyllgor Gwyddonol Cynghori ar Faeth
SFAC	Pwyllgor Cynghori ar Fwyd yr Alban
SFBB	Bwyd mwy diogel, gwell busnes
TGA	Terfyn Gwariant Adrannol
TNS	Manylebau maeth targed
TSE	Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy
UE	Yr Undeb Ewropeaidd
WSB	Bwrdd Safonau Gwin

